



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2025 – 2026



Rhagair

Dyma Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2025-26 ac mae'n canolbwyntio ar ein prif gyflawniadau yn ystod y flwyddyn.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru. Rydym yn sefydliad Cymru gyfan ac mae gennym 2216 o aelodau staff sy'n gweithio o wahanol leoliadau ledled y wlad. Mae ein pencadlys yn Cwr y Ddinas 2 yng Nghaerdydd.

Rydym yn falch o fod yn sefydliad dwyieithog, ac yn falch iawn o'r cynnydd rydym wedi'i wneud i wreiddio'r Gymraeg ymhellach yn ein gwaith ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae llawer i'w ddathlu yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys cyflwyno cyfleoedd hyfforddi newydd i staff. Mae'r rhain yn cynnwys y Gymraeg i Reolwyr a Defnyddio'r Gymraeg yn Effeithiol, sy'n ein galluogi i fodloni'r safonau gweithredu yn well ac i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i phroffil ymhlith ein gweithlu. Mae'n hynod gadarnhaol bod y Gymraeg bellach wedi'i hymwreiddio yng nghynlluniau gweithlu ein Cyfarwyddiaeth ac edrychwn ymlaen at weld y cynnydd mewn sgiliau Cymraeg o fewn y sefydliad o ganlyniad, dros y blynyddoedd i ddod.

Rydym wedi mireinio a gwneud gwelliannau i'n prosesau cwyno ynghylch y Gymraeg ac mae gennym system ar ei newydd wedd ar gyfer cyrraedd targedau ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol. Mae hyn yn galluogi Tîm y Gymraeg i weithio gyda phob rhaglen Sgrinio yn unigol i ddeall y llwyddiannau a'r heriau y mae pob rhaglen yn eu hwynebu. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r gwaith hwn ymhellach ac at gydweithio â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru yn ystod 2026 – 2027.

Rydym yn falch o ap newydd Helpa Fi i Stopio a lansiwyd ym mis Mawrth a'r ymgyrchoedd diogelu iechyd ehangach sydd wedi'u targedu at gynulleidfau Gymraeg ei hiaith ar sianeli fel S4C a Radio Cymru, gan ddwyn pwysigrwydd iechyd y cyhoedd i gartrefi siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Rydym yn falch iawn hefyd o'n lefelau uchel o gydymffurfio o ganlyniad i archwiliad Comisiynydd y Gymraeg o'n llinellau ffôn a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn edrych ymlaen at lansio ein gwefan newydd ym mis Mai, datblygiad pellach rhaglen sgrinio'r ysgyfaint a gwahodd tendrau unwaith eto ar gyfer ein darparwyr cyfieithu allanol, sy'n darparu gwasanaeth hynod bwysig i ni sy'n sicrhau bod ein gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn gywir ac yn gyson. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at fynd i Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol yn ystod 2026 i dynnu sylw at waith pwysig ein gwasanaethau mwyaf cyhoeddus, fel Sgrinio, Brechiadau, Hapus a Cymru Iach Ar Waith, ac i ddathlu'r Gymraeg yn fewnol drwy'r weledigaeth a'r targedau a amlinellir yn ein polisi wedi'i ddiweddarau ar y Defnydd Mewnol o'r Gymraeg.

Gwyddom wrth gwrs fod yna feysydd y mae angen i ni eu gwella, ac mae ein meysydd â blaenoriaeth ar gyfer 2026 – 2027 wedi'u hamlinellu ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Unwaith eto maent yn cynnwys y targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, sef bod 90% o'n staff yn cwblhau hyfforddiant e-ddysgu Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gweithio gyda chydweithwyr



caffael i lansio ein canllawiau ar y cyd newydd gyda Thîm y Gymraeg Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar y Gymraeg ym maes Caffael a chynyddu ein cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi drwy sicrhau bod proses gadarn wedi'i gwreiddio yn y sefydliad i sicrhau bod pob penderfyniad polisi a phenderfyniad strategol yn asesu eu heffaith ar y Gymraeg. Mae gennym lawer i'w gyflawni ond rydym yn edrych ymlaen yn fawr at yr her.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwbl ymroddedig i'r Gymraeg ac rydym yn parhau i elwa o'r arweinyddiaeth a ddangosir gan ein Bwrdd a'n Tîm Gweithredol i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan weladwy a chlywadwy o'u cyfathrebu; o frwdfrydedd ein staff ar bob lefel i ddysgu, gwella a defnyddio sgiliau Cymraeg; ymroddiad rhwydwaith staff Ymlaen i gynnal digwyddiadau rheolaidd i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'n diwylliant Cymreig, ac o ewylllys dda ac ymrwymiad arbennig ein staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen, sy'n cydnabod pwysigrwydd yr iaith ac ar yr un pryd gwella profiadau iechyd pobl Cymru.

Rydym yn falch o'n cyflawniadau a chredwn fod yr Adroddiad Blynyddol hwn yn dangos ein hymroddiad parhaus i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Neil Lewis

Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol ac Arweinydd Gweithredol y Gymraeg



Cyflwyniad

Daeth y gofyniad i Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i rym ar 30 Mai 2019; mae'r safonau y mae'n rhaid i Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â nhw wedi'u nodi mewn [Hysbysiad Cydymffurfio](#) a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Dyma ein seithfed Adroddiad Blynyddol, ac mae'n ymdrin â'n datblygiadau a'n gwelliannau yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026.

Gweithredu Safonau'r Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Trefniadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o weithredu'r safonau

Y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol sydd â'r prif gyfrifoldeb dros y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gennym Hyrwyddwr y Gymraeg ar ein Bwrdd, ac mae ein Rheolwr y Gymraeg a Tîm y Gymraeg yn gyfrifol am gynllunio strategol a gweithredol y Gymraeg ar draws y sefydliad.

Mae Tîm y Gymraeg yn cynnwys Rheolwr y Gymraeg, Cynghorydd y Gymraeg a Chydlynnydd Cyfieithu. Mae'r tîm yn cefnogi staff ar draws y sefydliad (ac ar draws Perfformiad a Gwella GIG Cymru) i wreiddio'r Gymraeg yn eu gwaith, hyrwyddo diwylliant dwyieithog o fewn y sefydliad a chynnig cyngor a chymorth ar gydymffurfio â deddfwriaeth y Gymraeg. Mae'r tîm yn gwneud hyn drwy:

- Ffonitro cydymffurfedd ar draws y sefydliad, nodi bylchau lle maent yn bodoli ac arwain ar ymholiadau a chwynion gan aelodau'r cyhoedd neu Gomisiynydd y Gymraeg.
- Gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru.
- Drafftio a chyhoeddi dogfennau canllaw a thempledi i gefnogi staff.
- Cynorthwyo ein staff i sicrhau dealltwriaeth o gydymffurfedd â'r Gymraeg a bod yn ffrind beirniadol pan fo angen.
- Codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymru drwy ddathlu digwyddiadau cenedlaethol, cydweithio â'n rhwydwaith staff, Ymlaen, a chyhoeddi cylchlythyr Cymraeg.
- Mynd i gyfarfodydd mewnol ac allanol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiol Safonau a deddfwriaeth y Gymraeg.
- Arwain sesiynau hyfforddi a chyflwyniadau i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Sicrhau bod ein staff sy'n dymuno dysgu neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn gallu cael at yr holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.
- Arwain ein prosesau cyfieithu i sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn addas at eu diben yn y dyfodol.

Mae Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ill dau yn derbyn adroddiadau a diweddariadau rheolaidd ar faterion y Gymraeg.

Gweithio mewn Partneriaeth



Mae gan Dîm y Gymraeg berthynas waith agos â Swyddogion a Rheolwyr y Gymraeg byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd eraill ledled Cymru. Maent yn cwrdd yn rheolaidd i drafod heriau a rhannu arferion gorau, ac i gyd-drefnu digwyddiadau ar y cyd i staff GIG Cymru, lle bo modd.

Hefyd, mae gennym berthynas waith agos ag Uned y Gymraeg yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae ein Tîm y Gymraeg yn mynd i gyfarfodydd chwarterol gyda'r Uned i drafod nodau ac amcanion y Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau ac yn croesawu'r cyfle i gydweithio â Chomisiynydd y Gymraeg.

Fel sefydliad, rydym wedi mynd i lawer o gyfarfodydd, digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi a gynhaliwyd gan gydweithwyr Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol y Swyddogion Iaith gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau ehangach GIG Cymru; cyfarfodydd fforymau iechyd strategol i drafod ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol ym mis Mehefin 2025 a mis Mawrth 2026; cyfarfodydd fforwm y Gymraeg yn y gweithle; digwyddiad arfer gorau ar weithdrefnau cwyno; gweithdy ar sut i gynyddu'r defnydd mewnol o'r Gymraeg, yn ogystal â'n cyfarfod monitro blynyddol gyda Chomisiynydd y Gymraeg a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol.

Aeth aelodau o'n Tîm y Gymraeg yn ogystal â rheolwyr ac arweinwyr ar draws y sefydliad i'r digwyddiadau uchod, ac mae'r dysgu ohonynt wedi cael ei rannu'n eang a'i wreiddio o fewn y sefydliad lle y bo modd. Hefyd, ar 9 Hydref, aeth ein Cadeirydd i ddigwyddiad cenedlaethol cyntaf Mwy na Geiriau yn Llandrindod.

Rydym wedi croesawu'r cyfleoedd a roddwyd i ni dros y flwyddyn ddiwethaf i fynychu digwyddiadau a hyfforddiant Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru ac rydym wedi gwerthfawrogi'r dysgu ohonynt. Edrychwn ymlaen at fynychu digwyddiadau pellach dros y flwyddyn ariannol nesaf a fydd yn gwella ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a'n prosesau hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn gyffredinol.

Hunanreoleiddio gyda Safonau'r Gymraeg

Mae cyfarwyddwyr unigol Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gyfrifol am drefniadau o fewn eu cyfarwyddiaethau eu hunain, sy'n rhoi sicrwydd iddynt fod gofynion y Gymraeg yn cael eu bodloni'n llawn.

Mae ein Grŵp y Gymraeg corfforaethol, sy'n cwrdd bob chwarter ac sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, yn cynnwys hyrwyddwyr y Gymraeg o bob cwr o'r sefydliad, sy'n dod ynghyd i drafod cydymffurfedd cyffredinol, llwyddiannau a heriau. Cedwir cofnod gweithredu o'r cyfarfodydd hyn i sicrhau cynnydd.

Bob mis Mawrth, mae cynrychiolwyr Grŵp y Gymraeg yn diweddarau templed adrodd ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer eu Cyfarwyddiaeth neu Adran, yna mae Tîm y Gymraeg yn casglu'r rhain ynghyd a'u cynnwys mewn adroddiadau fel yr adroddiad hwn. Mae'r templedi adrodd hyn yn rhoi golwg werthfawr i Dîm y Gymraeg ar y gwaith gwyh sy'n cael ei wneud ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru i wreiddio'r Gymraeg ymhellach yn ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio, ac maent hefyd yn cynorthwyo'r tîm i nodi heriau fel y gellir darparu cefnogaeth lle y bo angen.

Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio

Mae gan ein His-adran Sgrinio grŵp y Gymraeg hefyd, dan gadeiryddiaeth un o Arweinwyr y Rhaglenni Sgrinio, ac mae rheolwyr o bob un o'r rhaglenni sgrinio'n mynychu'r grŵp. Mae cynlluniau gweithredu, cofnodion a chofnodion gweithredu, ac mae cynnydd yn cael ei fonitro'n agos a'i adrodd i uwch dîm rheoli'r is-adran. Mae Tîm y Gymraeg yn mynd i'r cyfarfodydd i sicrhau bod arferion gorau'n cael eu rhannu a bod diweddariadau ar gynnydd yn cael eu rhoi.

Perfformiad a Gwella GIG Cymru

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn sefydliad sy'n cael ei letya gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac felly mae'n gweithio o dan gyfrifoldebau deddfwriaethol Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan Fesur y Gymraeg 2011.

Mae gwybodaeth am y Gymraeg a chynnydd gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru ar gyfer y cyfnod adrodd hwn i'w gweld yn Atodiad A (tudalen 39)

Trefniadau cyfieithu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Tîm y Gymraeg wedi parhau i wneud gwelliannau i'n prosesau cyfieithu yn sgil recriwtio i'n rôl Cydlynnydd Cyfieithu gyntaf yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Yn ystod 2025 – 2026, gwnaethom gyfieithu cyfanswm o **4,061,401** o eiriau.

Fel ein prif gyflenwr cyfieithu, cyfieithodd Uned Gyfieithu Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru y mwyafrif helaeth o'r rhain i ni, sef **3,326,160** o eiriau, gyda'n cyflenwyr masnachol allanol yn cyfieithu **561,704** o eiriau pellach a'n Tîm y Gymraeg mewnol yn cyfieithu **173,000** o eiriau. Hefyd, mae Tîm y Gymraeg a'r Cydlynnydd Cyfieithu yn benodol yn cynnig gwasanaeth cyngori a phrawffddarllen gwerthfawr i'n staff drwy gydol y flwyddyn.

Er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb o ran terminoleg ac i osgoi dyblygu cyfieithiadau, mae ein Cydlynnydd Cyfieithu yn rhannu meddalwedd cof cyfieithu Uned Gyfieithu Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fe wnaethom lansio ein Porth Ceisiadau Cyfieithu Cymraeg newydd i'r holl staff ei ddefnyddio i ofyn am gyfieithiadau ysgrifenedig. Mae'r porth wedi sicrhau bod gan staff ffordd hwylus ac effeithlon o ofyn am eu cyfieithiadau Cymraeg ac, am y tro cyntaf, mae gennym drosolwg llawn o'r galw am gyfieithu Cymraeg a'n hymateb, sy'n caniatáu i ni gynllunio'n fwy pwrpasol nag yn y gorffennol.



Llun o dudalen flaen y Porth Ceisiadau Cyfieithu Cymraeg

Wrth i'n contractau gyda'n darparwyr cyfieithu allanol ddod i ben yn ddiweddarach eleni, byddwn unwaith eto'n tendro am wasanaethau allanol i gefnogi'r gwasanaethau a ddefnyddiwn o fewn y GIG yng Nghymru.

O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, mae gennym broses llawer symlach ar gyfer gofyn am gyfieithiadau, gan roi hyder i'n staff yn ein prosesau cyfieithu ac yn ansawdd y cyfieithiadau a dderbyniwn. Rydym yn falch iawn o'n cyflawniadau yn y maes hwn dros y ddwy flynedd ddiwethaf a byddwn yn parhau i fonitro ein prosesau a gwneud gwelliannau lle bo angen.

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau 1-64

Gohebiaeth a ffôn (Safonau 1–20).

Gohebiaeth

Mae canllawiau ar sut i ohebu'n effeithiol ag aelodau'r cyhoedd, ein rhanddeiliaid a'n partneriaid yn ddwyieithog ar gael ar dudalennau mewnwyd Hwb y Gymraeg. Mae llawer o Gyfarwyddiaethau ac Adrannau wedi mynd ymhellach na hyn drwy sefydlu eu Gweithdrefnau Gweithredu Sefydlog eu hunain ar sut i ohebu'n effeithiol yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Er enghraifft, pan fyddwn yn cynhyrchu ac yn rhannu cylchlythyrau sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd, maent ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd, gyda'r testun Cymraeg yn gyntaf. Isod, mae rhai enghreifftiau o hyn gan y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant a'r Rhwydwaith Cyhyrsgybyddol o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru:



Mae tîm Cymru Iach ar Waith hefyd yn cynhyrchu cylchlythyr ar-lein misol sydd ar gael ar eu gwefan ac yn cael ei anfon at eu rhestr ddosbarthu:

<https://iacharwaith.cymru/cylchlythyr/ebrill-2026/> Ebrill 2026 - Cymru Iach ar Waith

Er mwyn bodloni safon 7 y Gymraeg, rydym wedi sicrhau bod ein llofnodion e-bost gyda'n brand sy'n cael eu defnyddio gan yr holl staff yn cynnwys y geiriad safonol, fel yr argymhellir yn y Cod Ymarfer, ar gyfer annog defnyddio'r Gymraeg ym mhob gohebiaeth. Mae ein llofnodion e-bost hefyd yn cynnwys y testun canlynol:



Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, ac ni fydd hynny'n arwain at oedi.

You are welcome to contact us in Welsh.
We will respond in Welsh, without
this causing delay.



Mae'r testun hwn hefyd wedi'i gynnwys ym mhob gohebiaeth safonol arall megis papur â phennawd a llythyrau apwyntiadau clinigol ein his-adrannau sgrinio.

Galwadau ffôn i'r sefydliad

Nid yw pob tîm ac unigolyn yn Iechyd Cyhoeddus Cymru'n derbyn galwadau ffôn ac mae'r rhan fwyaf o alwadau ffôn yn cael eu derbyn gan ein timau gweinyddol mewn amrywiol gyfarwyddiaethau.

Mae staff yn ein derbynfeydd yn siaradwyr Cymraeg ac mae llawer o alwadau i'n timau corfforaethol yn cael eu cyfeirio trwy ein prif dderbynfa yn Cwr y Ddinas 2, Caerdydd.

Mae pob neges awtomataidd yn cael ei recordio'n ddwyieithog gan aelodau'r tîm a gall Tîm y Gymraeg gynnig cymorth gyda hyn yn ôl yr angen.

Mae'r arfer gorau yn y maes hwn ar draws y sefydliad yn cynnwys y canlynol:

- Mae gan ein tîm AWARE yn y gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd gyfeiriadur o siaradwyr Cymraeg y gallant gyfeirio galwyr atynt pan fydd angen. Mae hwn yn opsiwn y gellir ei ystyried ar gyfer llawer o dimau eraill ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod galwadau ffôn yn y Gymraeg yn cael eu hateb yn brydlon.
- Gall y tîm Helpa Fi i Stopio ymdrin â phob galwad i'w llinell gymorth genedlaethol yn y Gymraeg gan fod gan y gwasanaeth ddau driniwr galwadau sy'n siarad Cymraeg yn ogystal ag un cynghorydd cymorth sy'n siarad Cymraeg.
- Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm Gweithio i Wella wedi gwneud gwelliannau i'w prif linell ffôn drwy fyrhau'r neges yn y ddwy iaith i alwyr. Gan nad oes yr un siaradwr Cymraeg yn y tîm Gweithio i Wella ar hyn o bryd, mae proses wedi'i rhoi ar waith i sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg yn y tîm ehangach neu Dîm y Gymraeg gynorthwyo â galwadau fel y bo angen.

Archwiliad llinellau ffôn

Yn dilyn archwiliad o linellau ffôn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2025 – 2026, nododd adborth gan Gomisiynydd y Gymraeg fod gan bob llinell ffôn a archwiliwyd lefel uchel o gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. Cynhaliodd y Comisiynydd archwiliad o linellau ffôn tair o'n rhaglenni Sgrinio.

Yn dilyn yr archwiliad, cyhoeddwyd adroddiad gan y Comisiynydd ac roedd angen ymateb gan sefydliadau erbyn diwedd mis Mehefin. Bydd Tîm y Gymraeg yn cydgasglu'r ymateb ar ran y sefydliad ac, yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn cynnal ein harchwiliad ein hunain o linellau ffôn i'r cyhoedd, gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarperir yn adroddiad Comisiynydd y Gymraeg.

Cyfarfodydd a digwyddiadau (Safonau 21–32)



Mae pob digwyddiad a gynhaliwn ar gyfer aelodau'r cyhoedd yn parhau i gael ei drefnu'n ddwyieithog gyda dogfennau dwyieithog, gan gynnwys gwahoddiadau, sleidiau cyflwyniadau a ffurflenni adborth, yn cael eu darparu. Mae angen cofrestru ar gyfer y rhan fwyaf o'n digwyddiadau a gofynnir cwestiynau am ddewis iaith ar y dechrau, gyda chyfieithu ar y pryd yn cael ei drefnu yn ôl yr angen.

Cynhelir pob un o gyfarfodydd ein Bwrdd gyda chyfieithu ar y pryd a chroesewir ac anogir cyfraniadau a chyflwyniadau yn Gymraeg.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein Tîm y Gymraeg wedi diweddarau ein canllawiau ar gyfarfodydd a digwyddiadau i sicrhau bod y prosesau sy'n ofynnol i gynnig ein digwyddiadau a'n cyfarfodydd yn ddwyieithog yn glir o'r cychwyn cyntaf. Rhan o'r broses hon yw cynnwys cwestiwn safonol am ddewis iaith i'r holl staff ei ddefnyddio ar wahoddiadau, er eglurder a chysodeb. Gan fod gwasanaethau cyfieithu Cymraeg bellach yn rhan o gylch gwaith Tîm y Gymraeg, mae'r tîm mewn gwell sefyllfa i gefnogi staff a threfnu cyfieithu ar y pryd ar eu rhan yn ôl yr angen. Ers hynny, mae llawer o dimau a chyfarwyddiaethau, gan gynnwys Diogelu Iechyd, Sgrinio, a Pholisi ac Iechyd Rhyngwladol, wedi cynnwys canllawiau'r tîm yn eu Gweithdrefnau Gweithredu Safonol eu hunain ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd.

Un o'n prif ddigwyddiadau yn 2025 – 2026 oedd Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd, a gynhaliwyd ym mis Hydref 2025. Dyma oedd y digwyddiad wyneb yn wyneb cyntaf o'i fath ers cyn y pandemig ac roedd yr holl wybodaeth i hyrwyddo'r digwyddiad ac ar y diwrnod yn ddwyieithog, gyda chyfieithu ar y pryd wedi'i ddarparu. Mae gwybodaeth am y gynhadledd yma: [Mae cofrestru nawr ar agor: Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd 2025 - Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) / [Registration now open: Welsh Public Health Conference 2025 - Public Health Wales](#)

Hyrwyddo neu hysbysebu ein gwasanaethau (Safon 33)

Fel sefydliad iechyd y cyhoedd cenedlaethol i Gymru, mae'n hanfodol ein bod yn hyrwyddo ac yn hysbysebu'r gwasanaethau a gynigiwn yn gyfartal yn Gymraeg a Saesneg.

Mae enghreifftiau o arferion gorau ar draws y sefydliad yn cynnwys:

Mae gan y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant amrywiaeth eang o wasanaethau y maent yn eu hyrwyddo'n ddwyieithog ac mae'r Tîm Marchnata Cymdeithasol o fewn y Gyfarwyddiaeth yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir i gyhoeddi neu hysbysebu eu gwasanaethau yn cael ei chyflawni yn unol â'r Safonau.

Datblygir y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg ac fe'i goruchwyllir gan staff sy'n siarad Cymraeg i sicrhau bod naws a chyflwyniad negeseuon yn cyd-fynd. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau hysbysebu Pwysau Iach Byw'n Iach, Helpa Fi i Stopio, Hapus, Pob Plentyn a Theithio Llesol i'r Ysgol. Mae'r tîm yn sicrhau bod y boblogaeth Gymraeg ei hiaith yn cael ei hystyried wrth gynllunio a phrynu cyfryngau. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar S4C, gorsafoedd radio lleol, a phapurau newydd rhanbarthol, yn ogystal â gosod hysbysebion Cymraeg ar ITV.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm wedi cyhoeddi'r canlynol:

- Ar gyfer ymgyrch Torri'r Gafael – Helpa Fi i Stopio, a redodd dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, fe wnaethon ni sicrhau 18 o hysbysebion Cymraeg (gydag isdeitlau Saesneg) ar ITV, gan gynnwys slotiau uchel eu proffil fel yn ystod Coronation Street ar Nos Galan ac Emmerdale ar Ddydd Calan. Darlledwyd cyfanswm o 33% o'r hysbysebion yn y Gymraeg, gan sicrhau aliniad â'r safonau.


Hefyd, fe wnaethon ni hysbysebu ar S4C yn y Gymraeg yn unig er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith, sy'n gyson â'n dull ni ar gyfer yr holl hysbysebu ar y teledu.

- Ar gyfer ymgyrch Newid Eich Meddylfryd – Pwysau Iach Byw'n Iach a gynhaliwyd rhwng Ebrill a Mai 2025, fe wnaethom sicrhau hysbysebion ar orsafoedd radio lleol i gyrraedd Cymru gyfan hefyd.
- Ar gyfer ymgyrch ddiweddaraf Peidiwch â Gadael i Rwystrau Ennill – Pwysau Iach Byw'n Iach, a lansiwyd ym mis Chwefror 2026, fe wnaethom gynnwys hysbysebion Cymraeg yn unig mewn Papurau Bro.
- Eleni hefyd, fe wnaethon ni a dylanwadwyr Cymraeg eu hiaith ddod at ein gilydd am y tro cyntaf, gan gynnwys Jonathan Davies (Pwysau Iach Byw'n Iach) a Lloyd Lewis a Roseanna Gracia (Helpa Fi i Stopio – Ymgyrch Atal Ysmygu). Dyma enghraifft o un fideo a gynhyrchwyd gyda Jonathan Davies: [Instagram](#) ac un gyda Lloyd Lewis: [Instagram](#)

Mae Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC) hefyd yn dangos arferion da yn y fideos maen nhw'n eu cynhyrchu i hysbysebu eu gwasanaethau. Mae dwy enghraifft o'r rhain isod:

- Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus: [Amser i Siarad CYM | Fideos a Ffilmiau ar Vimeo](#)
- Platfform Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru [WHESP](#)

Yn ystod 2025 – 2026, mae tîm Cyfathrebu'r Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy wedi gweithio gyda darparwr allanol i gynhyrchu deunyddiau sy'n targedu pobl 65 oed a hŷn, plant a phobl ifanc, menywod beichiog a phobl â chyflyrau iechyd eraill i hyrwyddo pwysigrwydd cael brechiadau'r gaeaf. Mae rhai o'r delweddau a ddatblygwyd ac a rannwyd yn eang ar wefannau, cyfryngau cymdeithasol ac mewn meddygfeydd teulu i'w gweld isod:



Deunyddiau rydym yn eu creu a'u harddangos yn gyhoeddus (Safon 34)

Pan fyddwn yn arddangos deunyddiau yr ydym wedi'u creu yn gyhoeddus, byddant bob amser yn cael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg.

Crëir deunyddiau'n ddwyieithog lle y bo modd fel bod y ddwy iaith yn cael eu harddangos gyda'i gilydd ac, wrth i ni adnewyddu deunyddiau sydd ar wahân ar hyn o bryd, byddwn yn ceisio eu hailddylunio'n ddwyieithog.

Mae ein holl ddeunyddiau cyhoeddus sydd â'r nod o wella iechyd pobl Cymru ar gael i'w lawrlwytho neu eu harchebu ar ffurf copïau caled o'n gwefan: Mae [Adnoddau Gwybodaeth Iechyd - Iechyd Cyhoeddus Cymru / Health Information Resources - Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) a'r holl ddeunyddiau hyrwyddo, gan gynnwys taflenni, pamffledi a fideos, ar gyfer ein gwasanaethau sgrinio yn cael eu cynhyrchu ac maent ar gael yn ddwyieithog.

Mae enghreifftiau i'w gweld ar dudalennau gwe ein gwasanaethau Sgrinio: [Sgrinio - Iechyd Cyhoeddus Cymru / Screening - Public Health Wales](#)

Mae'r holl ddeunyddiau hyn ar gael i bractisiau meddygon teulu a byrddau iechyd eu lawrlwytho a'u harddangos fel y dymunant.

Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

Mae tîm Amser i Siarad yn hyrwyddo'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn annog adborth gan siaradwyr Cymraeg o bob cwr o Gymru ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud ag iechyd.

Poster hyrwyddo Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus

Dogfennau (Safonau 36-38)

Ffurflenni

Mae pob ffurflen a luniwn ar gael yn ddwyieithog gyda llawer ohonynt yn cael eu creu ar Microsoft Forms yn ddiodyn. Mae ffurflenni'n cael eu creu at amrywiaeth o ddibenion, megis cofrestru mewn digwyddiadau, cyfarfodydd a hyfforddiant, i gofrestru ar gyfer cylchlythyrau ac i roi adborth i ni ar ein gwasanaethau.

Dyma rai enghreifftiau o'r ffurflenni dwyieithog rydyn ni'n eu llunio: [Iechyd Cyhoeddus Cymru WHO CC / Public Health Wales WHO CC](#) a [Diolch am fynychu Arddangosiad Peer Action Collective Cymru! Arolwg](#)



Arolygon adborth cwsmeriaid

Yn ystod 2025-2026, mae ein Tîm Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau (Pobl) wedi bod yn gweithio i gefnogi'r sefydliad i fabwysiadu'r Fframwaith Profiad Pobl fel dogfen arweiniol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fe wnaeth hyn gynnwys defnyddio Arolwg Profiad Pobl ar draws gwasanaethau clinigol i'r cyhoedd a ddarperir yn uniongyrchol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

I estyn y gallu i gyfranogwyr roi adborth, fe wnaethom dreialu'r defnydd o negeseuon testun SMS dwyieithog ar ddechrau 2025 ac i mewn i flwyddyn ariannol 2025/26. Cynhaliwyd y cynllun peilot ar draws wyth clinig Sgrinio Llygaid Diabetig a llwyddodd i gynyddu nifer yr ymatebion adborth o'r gwaelodlin, sef 0.35%, i 29%. Ym mis Medi 2025, cytunwyd cyflwyno ceisiadau am adborth trwy negeseuon testun SMS i bob gwasanaeth mewn clinig a ddarperir yn uniongyrchol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Y gwasanaeth cyntaf i ddechrau ceisiadau adborth SMS oedd Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, a ddechreuodd ar 1 Rhagfyr 2025. O'r dyddiad cychwyn tan 31 Mawrth 2026 (pedwar mis), anfonwyd neges at 22,418 o bobl, a arweiniodd at adborth gan 6,214 o gyfranogwyr. Dyma gyfradd ymateb o 27.72%. O'r 6,214 o gyfranogwyr, mae 58 o bobl wedi dewis gadael adborth yn y Gymraeg.

O ganlyniad uniongyrchol i'r dull SMS a'r cwestiynau rydym yn eu gofyn, rydym bellach yn gallu rhannu'r wybodaeth ganlynol gyda gwasanaethau a'r sefydliad ehangach:

- Faint o bobl a ymatebodd yn y Gymraeg.
- Cyfanswm y bobl a nododd mai'r Gymraeg oedd eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu.
- A oedd pobl yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith
- Os na, beth oedd y rhesymau dros hynny

Dros 2026/27, rydym yn bwriadu cyflwyno adborth negeseuon testun SMS i Sgrinio Anewrysmiau Aortig yn yr Abdomen (AAA) a Bron Brawf Cymru, a fydd yn ein helpu i fonitro cynnydd ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn y meysydd hyn.

Byddwn yn parhau i weithio ar y ffordd orau o ddefnyddio'r data gwerthfawr i gefnogi defnydd o'r Gymraeg ar draws ein gwasanaeth a'n sefydliad ehangach. Rydym yn gobeithio bwrw ymlaen â'r gwaith hwn gyda chefnogaeth ein timau Ansawdd a'r Gymraeg ddechrau 2026/27.

Dogfennau

Wrth baratoi ar gyfer ein gwefan newydd, mae Tîm y Gymraeg wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu Digidol dros y flwyddyn ddiwethaf i wella'r cyngor a'r canllawiau sydd ar gael i'n staff ar gyhoeddi'n ddwyieithog.

Er mwyn cynorthwyo ein staff â phenderfynu p'un a oes angen i ddogfen fod ar gael yn y Gymraeg ai peidio (yn unol â safon 37), mae Tîm y Gymraeg wedi creu ffurflen asesu hawdd ei defnyddio sy'n seiliedig ar y canllawiau a'r cwestiynau asesu yn nogfen y Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau, Rhif 7. Os nad ydych chi'n siwr p'un a oes angen i ddogfen fod ar gael yn y Gymraeg ai peidio, cynghorir staff i gwblhau'r asesiad ac yn dilyn yr asesiad, os na fydd angen fersiwn Gymraeg, cadw'r asesiad er tystiolaeth ac i gyfeirio ato yn y dyfodol.

Yn dilyn adborth gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg bod angen gwelliannau yn ein cydymffurfedd â safon 38C yn benodol, rydym wedi rhannu canllawiau ar draws y sefydliad



ar yr angen i fersiynau Saesneg o ddogfennau nodi'n glir bod fersiwn Gymraeg hefyd ar gael. I hyrwyddo hyn hyd yma, rydym wedi:

- Rhannu cyngor ac arweiniad a rennir mewn cyfarfodydd fel cyfarfodydd chwarterol Grŵp y Gymraeg a chyfarfodydd y Grŵp Egwyddorion Cyhoeddiadau
- Rhannu canllawiau ar dudalennau Cynnwys mewnol Clinig
- Gweithio gyda chydweithwyr ar y Bwrdd ac yn yr Uned Fusnes i ychwanegu'r testun at bob templed polisi a fydd yn cael ei gyhoeddi yn y dyfodol. Hefyd, bydd polisiâu cyfredol yn cael eu hystyried yn ôl-weithredol pan fo hynny'n bosibl.
- Dechrau sgysiau gyda'r tîm Brand i sefydlu llyfrgell o opsiynau y gellir eu defnyddio ar gyfer dogfennau h.y. Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg / Mae'r llyfryn hwn ar gael yn Gymraeg / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

Cyathrebu digidol (Safonau 39–46)

Gwefan

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n gyfrifol am nifer o wefannau. Yn dilyn ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg i'r lefel isel o gydymffurfedd â safonau gwefannau gennym yn ôl yn 2022, mae'r tîm Cyathrebu Digidol wedi cyflawni cynnydd mawr yn y maes hwn dros y blynedd diwethaf.

Aeth datblygiad ystâd gwefannau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei flaen yn dda, a'r nod yw y bydd pob gwefan wedi symud i blatfform newydd erbyn diwedd mis Mai 2026. Mae'r gwaith yn cynnwys cynllun newydd ar gyfer gwefan gorfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru, symud rhai gwefannau i'r brif wefan, ac adnewyddu gwefannau annibynnol eraill. Roedd y rhaglen waith yn nodi bod angen gwell ansawdd a rheoli Safonau'r Gymraeg yn well.

Mae'r wefan gorfforaethol newydd ar ffurf beta ar hyn o bryd ([Cymraeg/Saesneg](#)), gyda'r nod o'i lansio'n llawn ar 21 Mai. Mae'r wefan newydd wedi'i datblygu gan gwmni allanol ac mae cyfarfodydd Dangos a Dweud rheolaidd wedi'u cynnal i staff er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb.

Bydd y wefan hon yn aros ar ffurf beta am gyfnod i annog adborth. Mae'r ffurflen adborth yn gofyn yn benodol a yw'r wefan yn bodloni disgwyliadau defnyddwyr o ran y Gymraeg ac rydym wedi cyflwyno prosesau cyhoeddi ac asesu ansawdd newydd i sicrhau bod cynnwys ar draws y wefan gyfan yn bodloni Safonau'r Gymraeg.

Lansiwyd y gwefannau dwyieithog canlynol yn ystod y misoedd diwethaf:

[Hapus.cymru](#) / [Hapus.wales](#)

[Helpa Fi i Stopio](#) / [Help me Quit](#)

[Cymru Iach ar Waith](#) / [Healthy Working Wales](#)

[Wedinos.cymru](#) / [Wedinos.wales](#)

Bydd y gwefannau canlynol yn cael eu datgomisiynu erbyn diwedd mis Mai ar ôl i'r holl gynnwys gael ei symud i'r wefan gorfforaethol newydd:


[Pob Plentyn](#) / [Every Child](#)

[Iechyd Rhywiol Cymru](#) / [Sexual Health Wales](#)

[Gofal Sylfaenol Un](#) / [Primary Care One](#)

Apiau

Ar 11 Mawrth 2026, sef Diwrnod Cenedlaethol Dim Ysmygu, lansiodd y tîm Helpa Fi i Stopio ap stopio ysmygu newydd, y gellir ei ddefnyddio i helpu pobl i stopio ysmygu. Mae'r ap ar gael yn Gymraeg yn yr App Store drwy chwilio am 'Helpa Fi i Stopio' ac mae'r holl swyddogaethau ar gael yn y Gymraeg, gan gynnwys y sgwrs gymorth AI. Cafodd yr ap ei brofi gan siaradwyr Cymraeg cyn ei lansio i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn glir ac yn gyfeillgar, a bod yr holl swyddogaethau'n gweithio'n gyfartal â'r Saesneg. Wrth gofrestru gyda'r ap am y tro cyntaf, y Gymraeg yw'r iaith ddiofyn a gynigir.



Delweddau o'r ap Helpa Fi i Stopio

Y Cyfryngau Cymdeithasol

Mae ein Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn rheoli cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gennym ni gyfrifon X cyfochrog yn Gymraeg a Saesneg @IechydCyhoeddus a @PublicHealthWales, a thudalennau Facebook:

www.facebook.com/IechydCyhoeddusCymru www.facebook.com/PublicHealthWales.

<https://twitter.com/IechydCyhoeddus> / <https://twitter.com/PublicHealthW>

Rydym yn cyhoeddi postiau ar yr un pryd ar y cyfrifon Cymraeg a Saesneg a gellir gweld rhai enghreifftiau o'r rhain dros y flwyddyn ddiwethaf isod:



Yn ogystal â'n sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, mae gennym gyfrifon hefyd ar gyfer rhai o'n rhaglenni a'n gwasanaethau eraill, fel [Pwysau Iach Byw'n Iach](#) / [Healthy Weight Healthy You](#) , [Hapus](#) a [Helpa Fi i Stopio](#) / [Help Me Quit](#)

Fel sefydliad, rydym bellach yn defnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol newydd fel Instagram, LinkedIn a TikTok fwyfwy i gyrraedd cynulleidfau ehangach. Mae'r cyfrifon hyn yn ddwyieithog a chaiff gwybodaeth ei phostio yn y Gymraeg yn gyntaf.

Cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg archwiliad o'r sianeli cyfryngau cymdeithasol hyn yn ystod 2025 / 2026 ac adroddwyd bod gan lechyd Cyhoeddus Cymru lefel uchel o gydymffurfedd â'r safonau ar draws pob sianel. Rydym yn falch iawn o'n cyflawniad ac

wedi manteisio ar y cyfle i rannu'r 4 argymhelliad o archwiliad Comisiynydd y Gymraeg gyda'r holl dimau sy'n gyfrifol am sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Arwyddion a gwasanaethau derbynfa (Safonau 47–53)

Cyfrifoldeb ein Tîm Ystadau yw'r arwyddion yn ein hadeiladau swyddfa a'n mannau derbynfa. Mae'r tîm yn sicrhau bod yr holl arwyddion a hysbysiadau rydym ni'n eu harddangos ar gyfer staff ac aelodau'r cyhoedd yn cael eu harddangos yn Gymraeg a Saesneg.

Mae ein prif dderbynfa yn swyddfa Caerdydd yn sicrhau bod ein cwsmeriaid a'n staff yn parhau i dderbyn croeso cynnes dwyieithog.



Ein derbynfa yn Rhif 2 Cwr y Ddinas, Caerdydd.

Mae pob swydd derbynnydd yn ein prif swyddfa yng Nghaerdydd ac yn ein hamrywiol leoliadau ledled Cymru yn cael eu hysbysebu'n swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, gan sicrhau ein bod ni bob amser yn gallu cyfarch ymwelwyr yn eu dewis iaith. Mae posteri Cymraeg Gwaith yn cael eu harddangos ym mhob un o'n derbynfeydd i annog defnyddio'r Gymraeg ac mae staff yn gwisgo laniardiau a bathodynau Cymraeg Gwaith bob dydd.

Yn ystod 2026-2027, bydd Tîm y Gymraeg yn gweithio gyda'r Tîm Ystadau i sefydlu llyfrgell Arwyddion newydd ar ein mewnrwyd i sicrhau cywirdeb a chysondeb ar ein holl arwyddion. Mae Perfformiad a Gwellu GIG Cymru eisoes wedi sefydlu eu llyfrgell arwyddion eu hunain, a'n nod yw y bydd llyfrgell Iechyd Cyhoeddus Cymru yn fyw erbyn mis Medi. Bydd lleoliadau clinigol fel ein clinigau Sgrinio hefyd yn cynnal archwiliadau rheolaidd o arwyddion o hyn ymlaen ac yn defnyddio'r llyfrgell arwyddion newydd i newid arwyddion fel y bo angen.

Grantiau a chontractau (Safonau 54–64)

Mae dogfennau a phrosesau tendro Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cael eu cydlynu a'u rheoli ar ein rhan drwy wasanaethau caffael Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC).

Mae gan Dîm y Gymraeg berthynas waith gadarnhaol iawn gyda chydweithwyr Caffael ac mae Tîm y Gymraeg bellach yn cael gweld pob manyleb tendr cyn iddynt gael eu hysbysebu. Mae hyn yn sicrhau y gellir cynnwys gofynion y Gymraeg ym manylebau tendrau a bod y gwasanaethau'r ydym yn eu caffael yn cyd-fynd â'n gofynion cyfreithiol o ran y Gymraeg. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae gofynion y Gymraeg wedi'u cynnwys ym manylebau'r tendrau ar gyfer ap newydd Helpa Fi i Stopio, Fideos Hyrwyddo Sgrinio Llygaid Diabetig a gwasanaethau creadigol ar gyfer cynhyrchu adnoddau i glinigwyr a chleifion am ddiabetes.

Mae Tîm y Gymraeg wedi gweithio'n agos gyda'r Tîm Iechyd Rhywiol a'n cyswllt Caffael dros y flwyddyn ddiwethaf i gywiro problemau gyda'r Gymraeg ar y porth Profi a Phostio ar-lein, yn dilyn cyfres o gwynion. O ganlyniad, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd bellach rhwng pob parti ac mae gan gyflenwr y porth gytundeb ar waith gyda chwmni cyfieithu i gynnal gwiriadau ac archwiliadau rheolaidd o'r porth i sicrhau cywirdeb.

Dros y flwyddyn ariannol nesaf, bydd Tîm y Gymraeg yn cynnal proses gaffael ar gyfer ein gwasanaethau cyfieithu allanol i'r Gymraeg wrth i'n contractau presennol ddod i ben ym mis Tachwedd 2026. Bydd yr holl ddogfennau tendr ar gael yn y Gymraeg.

Mae canllawiau wedi'u diweddarau ar y Gymraeg a Chaffael ar ffurf drafft ar hyn o bryd a bydd Tîm y Gymraeg yn parhau i weithio gyda'n cyswllt Caffael a'n cydweithwyr ym maes y Gymraeg yn PCGC i gwblhau'r canllawiau a sefydlu rhestr wirio er mwyn bodloni safonau 57-59 yn well.

Byddwn hefyd yn lansio rhaglen grantiau gamblo newydd yn ystod 2026 – 2027. Mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r tîm cyfrifol i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei lansio yn unol â safonau 54-56.


Hyrwyddo ein gwasanaethau (Safonau 60 - 62)

Mae ein holl wasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog ac rydym yn hyrwyddo'r gwasanaethau hynny lle bynnag y gallwn.

Yn gynharach yn y flwyddyn, gofynnodd Comisiynydd y Gymraeg i sefydliadau cyhoeddus am 3 gwasanaeth Cymraeg yr hoffent eu hyrwyddo ar adran newydd o wefan y Comisiynydd. Mae gwybodaeth am y gwasanaethau y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dymuno eu hyrwyddo i'w gweld yma: [Hyrwyddo Gwasanaethau Sefydliadau Cyhoeddus](#)

Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg

Yn ôl yr arfer, cefnogodd y sefydliad Ymgyrch Defnyddia Dy Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg gyda phostiadau ar ein prif sianeli cyfryngau cymdeithasol a sianeli ein meysydd gwasanaeth.



Delwedd o bost cyfryngau cymdeithasol Helpa Fi i Stopio i ddathlu Ymgyrch Defnyddia Dy Gymraeg

Gwasanaethau Diogelu Iechyd

Mae timau Pwysau Iach Byw'n Iach a Helpa Fi i Stopio yn hyrwyddo eu cynnig Cymreig unigryw yn rheolaidd. Mae gan y ddwy raglen wefan ([Pwysau Iach Byw'n Iach](#) / [Helpa Fi i Stopio](#)) a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol cwbl ddwyieithog ac mae cynnwys wedi'i ddrافتio ar y cyd ar gyfer y gwefannau Cymraeg a Saesneg gan y siaradwyr Cymraeg yn y tîm, gan sicrhau ei fod yn ystyrlon yn y ddwy iaith ac nad yw'n gyfieithiad uniongyrchol.

Mae'r rhaglenni'n hyrwyddo eu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg yn rheolaidd drwy hysbysebion a ddarllidir ar S4C a Radio Cymru – mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys uchod o dan Safon 33.



Delweddau o wefannau Pwysau Iach Byw'n Iach a Helpa Fi i Stopio

Helwyr Heintiau / Immune Patrol

Mae ein Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy wedi sicrhau bod rhaglen fyd-eang ar addysg brechlynnau, sydd wedi'i hanelu at blant 10-12 oed, bellach ar gael yn y Gymraeg am y tro cyntaf.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio gyda Sefydliad Iechyd y Byd a phartneriaid i gynhyrchu fersiwn Gymraeg gyflawn o Helwyr Heintiau, gyda chynllun peilot cenedlaethol ar raddfa fawr yn digwydd gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg dros y flwyddyn academaidd hon.

Gyda brand unigryw Gymreig, mae Helwyr Heintiau bellach ar gael i bob ysgol Gymraeg yng Nghymru i addysgu am bwysigrwydd cael brechiadau.

Gweithiodd tîm y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy gyda Thîm y Gymraeg ac un o'n cyflenwyr gwasanaethau digidol a chyfieithu allanol i ddatblygu'r rhaglen yn y Gymraeg.



Posterï hyrwyddo Helwyr Heintiau

Eisteddfodau 2025

Am y tro cyntaf, ymunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â'n cydweithwyr yn GIG Cymru a Llywodraeth Cymru ar stondin y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam i hyrwyddo rhai o'r gwasanaethau Cymraeg a ddarparwn i bobl Cymru. Roedd cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn bresennol ar y stondin ar 4 o'r 8 diwrnod a rhannwyd gwybodaeth am wasanaethau sgrinio, brechiadau, Hapus a diwylliant y Gymraeg o fewn y sefydliad.



Mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol yn 2026 ac rydym yn edrych ymlaen unwaith eto at ymuno â chydweithwyr GIG Cymru a chydweithwyr o Lywodraeth Cymru yn yr Urdd ym Môn a'r Genedlaethol yn Sir Benfro.

Digwyddiad Cenedlaethol Mwy na Geiriau

Ym mis Hydref, ymunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â chydweithwyr y GIG a Gofal Cymdeithasol o bob cwr o Gymru yn nigwyddiad cenedlaethol cyntaf erioed Mwy na Geiriau, a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru. Mynychodd ein Cadeirydd y digwyddiad ac roedd gwybodaeth am y gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael ar stondin GIG Cymru.

Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae ein henw Cymraeg yn dod yn gyntaf ar hunaniaeth gorfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adlewyrchir hyn hefyd mewn is-frandiau eraill sy'n rhan o waith y sefydliad. Mae rhai enghreifftiau o'r rhain isod:



Mae gan bob cyfeiriad e-bost a grëwyd ers 2019, a ddefnyddir gan aelodau'r cyhoedd i gael mynediad i'n gwasanaethau, fersiwn Gymraeg wedi'i chreu yn ddiofyn. Mae cyfeiriadau e-bost hyn, a oedd yn bodoli cyn Safonau'r Gymraeg, yn cael eu diweddaru gan ein cydweithwyr TG fel y bo angen.


Pan newidiwyd enw a brand Gweithrediaeth y GIG ar 1 Ebrill 2025, fe'i newidiwyd i enw a brand dwyieithog – Perfformiad a Gwellu GIG Cymru / NHS Wales Performance and Improvement.

Ein Canllawiau Brand

Yn 2023, fe wnaethom lansio canllawiau brand newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, a oedd yn cynnwys templedi ar gyfer PowerPoint, negeseuon 'allan o'r swyddfa' a chefnidiroedd Teams i hwyluso'r broses o ddrafftio'n ddwyieithog yn weithredol. Mae ein canllawiau brand hefyd yn cynnwys templedi llofnodion e-bost y gall staff eu lawrlwytho a'u defnyddio'n hawdd.

Argymhellir bod pob aelod o staff yn defnyddio'r templedi gan eu bod yn cyd-fynd â'n brand corfforaethol. Mae ein llofnodion e-bost yn cynnwys datganiad ynghylch cyfathrebu yn Gymraeg ac mae ganddynt opsiynau ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i staff ddewis ohonynt.

Gwelir enghreifftiau o'r templedi isod a byddwn yn parhau i ychwanegu atynt yn ôl yr angen.



Cyrsiau addysg (Safon 63)

Fel sefydliad iechyd y cyhoedd cenedlaethol Cymru, rydym yn cynnig llawer o gyrsiau addysg i'r cyhoedd ac i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ledled Cymru.

Pan gynhelir ein cyrsiau addysg mewn amser real, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb, cynigir cyrsiau yn Gymraeg a Saesneg ac fe'u cyflwynir yn unol â hynny. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau a gyflwynir gan ein Tîm Ymgysylltu â Sgrinio, y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant, Gwelliant Cymru a Chymru Iach ar Waith.

Mae pob modiwl e-ddysgu a gynhyrchir gan ein Cyfarwyddiaethau amrywiol ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac maent naill ai'n cael eu cynnal ar ein gwefan neu ar [Y Tŷ Dysgu](#).

Safonau Llundio Polisi (Safonau 65–77)

Yn ystod 2024 - 2025, yn dilyn y gwaith ymholi a'r canllawiau a gafwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, fe aeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ati i sefydlu a chynnal peilot o Hwb Llywodraethu newydd. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, fe wnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru dreialu Grŵp Deddfau, Dyletswyddau a Safonau i ddarparu mecanwaith i arbenigwyr pwnc gefnogi perchnogion gwaith trwy gwblhau asesiadau effaith. Fel arbenigwr pwnc, roedd ein Rheolwr y Gymraeg yn aelod o'r Grŵp.

Tynnodd peilot yr Hwb Llywodraethu sylw at waith cadarnhaol iawn ond nododd hefyd feysydd lle gellid gwneud gwelliannau, yn benodol mewn perthynas ag asesiadau o effaith. Mae'r sefydliad bellach yn trafod sut y bydd y gwaith asesu effaith hwn, gan gynnwys asesu effaith ar y Gymraeg, yn cael ei ddatblygu yn y tymor hwy.

Ar hyn o bryd mae gennym ffurflen a phroses ar wahân ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (sy'n cynnwys cwestiynau sylfaenol am asesu'r effaith ar y Gymraeg) yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer pob polisi staff newydd a rhai penderfyniadau strategol, ac mae



gennym dudalen SharePoint 'Deall ein Heffaith', lle y mae gwybodaeth ar gael i staff ar bwysigrwydd asesu ein heffaith.

Fodd bynnag, mae angen mireinio a gwella'r broses bresennol er mwyn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Llundio Polisi. Mae gan ein Tîm y Gymraeg dempled Asesu'r Effaith ar y Gymraeg a Chanllawiau ar ffurf drafft a, thros y flwyddyn nesaf, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Pherfformiad a Gwella GIG Cymru'n anelu at wella ein prosesau yn y maes pwysig iawn hwn.

Safonau Gweithredu (79-114)

Defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safonau 79–95)

Polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safon 79)

Mae ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddiben hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i adolygu a'i ddiweddararu yn ystod 2025, gyda'r fersiwn newydd wedi'i chyhoeddi ym mis Chwefror 2026.

Mae'n bosibl mynd at y polisi wedi'i ddiweddararu ar ein tudalen we ar y Gymraeg ac ar dudalen we ein polisïau (sydd wedi'u cynnwys o dan safon 81). Mae modd darllen y fersiwn Gymraeg [yma](#) a'r fersiwn Saesneg [yma](#).

Mae'r polisi ar ei newydd wedd yn mynd ymhellach na'n polisi gwreiddiol o ran ein gweledigaeth ynghylch sut yr ydym am weld yr holl staff yn cofleidio'r Gymraeg a chael cyfleoedd i'w defnyddio bob dydd yn y gwaith. Cafodd y polisi ei ddrafftio yn unol â chanllawiau newydd Comisiynydd y Gymraeg a chafwyd cyfraniadau o bob rhan o'r sefydliad at y polisi mewn gweithdy a chyfnod ymgynghori mis o hyd.

Gweledigaeth ein polisi yw '.....cefnogi ein holl aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio eu Cymraeg yn y gwaith pan fo modd. Byddwn yn annog ein dysgwyr i ddatblygu ac ymarfer eu Cymraeg drwy roi cyfleoedd ac amser iddynt wneud hynny. Yn unol â'r targed a nodir yn y cynllun Mwy na Geiriau, byddwn yn sicrhau bod cynifer â phosibl o'n staff sydd â sgiliau Cymraeg lefel 0 ar hyn o bryd yn symud ymlaen i lefel cwrteisi yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Yn anad dim, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hyrwyddo ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ac yn annog ein staff ar bob lefel i fod yn falch o'n hiaith a'n diwylliant yng Nghymru drwy sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil hanfodol yn y sefydliad.

Mae'r polisi hefyd yn cynnwys targedau i'r sefydliad ar gyfer y 3 blynedd nesaf o dan themâu Arweinyddiaeth; Cefnogi ein dysgwyr; Cyfieithu; Dathlu'r Gymraeg a Hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol.

Cyfleoedd i staff ddefnyddio eu Cymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Diweddariad gan Gadeirydd y rhwydwaith staff, Ymlaen

Mae Ymlaen (rhwydwaith y Gymraeg ar gyfer staff Iechyd Cyhoeddus Cymru) bellach wedi bod ar waith ers tair blynedd ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth.


Mae ymhell dros 130 o aelodau erbyn hyn, gyda siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr ar bob lefel o bob rhan o'r sefydliad yn dod at ei gilydd i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant a dangos bod yr iaith yn perthyn i bob un ohonom. Cafodd Ymlaen ei gynnwys yn adroddiad

blynyddol Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru fel enghraifft o arfer da ac rydym yn gobeithio ehangu ar y llwyddiant hwn yn y dyfodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf cynhaliodd y rhwydwaith amrywiaeth o ddigwyddiadau sydd wedi bod ar agor i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru a Pherfformiad a Gwella GIG Cymru, yn ogystal â'r holl staff ar draws y GIG yng Nghymru. Mae'r digwyddiadau hyn wedi cynnwys sesiynau gan Ganolfan Bedwyr ar y Gymraeg a thechnoleg, Y Gymraeg a'n tirwedd a gynhaliwyd gan Barciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri, a sesiwn gan Sharon Morgan, sef awdur cyfieithiad y Vagina Monologues, Shinani'n Siarad, i ddathlu Diwrnod Shwmae ym mis Hydref. Mae'r rhwydwaith hefyd wedi darparu tocynnau i staff fynychu Eisteddfodau 2025 i gael profiad o ddiwylliant Cymraeg, trefnu taith o amgylch y Senedd i'n dysgwyr Cymraeg a darparu detholiad o nwyddau fel poteli dŵr, bagiau, pennau a phensiliau i'w rhannu gyda staff mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb.

Yn ôl yr arfer ym mis Mawrth, dathlom Wythnos y Gymraeg gyda llu o ddigwyddiadau ar-lein gyda siaradwyr fel Stephen Rule neu'r 'Doctor Cymraeg', a digwyddiad ar y cyd â'n rhwydwaith Enfys a oedd yn cynnwys sgwrs gan Norena Shopland, Hanesydd LHDTG+ yng Nghymru.

Yn olaf, croesawom ni'r digrifwr, awdur ac artist drag Alun Saunders i gynnal digwyddiad wyneb yn wyneb yn ein Swyddfeydd yng Nghaerdydd, lle cynhaliwyd dathliad gyda chacennau cri a nwyddau Ymlaen.



Mae'r digwyddiadau bob amser yn llwyddiant wrth godi proffil y Gymraeg a rhwydwaith staff Ymlaen o fewn y sefydliad.

Mae Ymlaen yn parhau i fod yn bresennol mewn digwyddiadau mawr fel cynhadledd y staff a digwyddiadau i weithwyr newydd. Rydym hefyd yn cynnal Caffi Cymraeg rhithwir bob mis i groesawu pobl i ddod am sgwrs ac ymarfer eu Cymraeg. Edrychwn ymlaen at adeiladu ar y llwyddiant hwn yn 2026.

Wrth i ni gamu i'r flwyddyn ariannol newydd, bydd gan Ymlaen arweinwyr newydd a bydd hyn yn ddechrau cam newydd cyffrous i'r Rhwydwaith. Rydym yn gobeithio cynnal mwy o ddigwyddiadau cyffrous i aelodau wrth i ni hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad a thu hwnt. Mae ein llwyddiant o ganlyniad i'n cydweithredu agos â Thîm y Gymraeg ac ymrwymiad eraill yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n rhoi o'u hamser i'n cefnogi ni.

Mae cyfleoedd eraill i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'i phroffil ar draws y sefydliad yn cynnwys y canlynol:

- Mae ein bwletin staff wythnosol drwy'r e-bost yn cynnwys Gair Cymraeg yr Wythnos

Welsh word of the week: Mehefin, pronounced: Meh -hev-
een, meaning: June



- Mae cyfarfodydd misol ein tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cynnwys gweithgaredd neu ddigwyddiad Cymraeg rheolaidd a arweinir gan Dîm y Gymraeg.

Hyd yn hyn, mae'r rhain wedi cynnwys sesiynau ar hanes y Gymraeg, pwysigrwydd y Gymraeg wrth gynllunio'r gweithlu a beth yw ein targedau, cwis Nadolig a chyfleoedd dysgu Cymraeg. Bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn eitem reolaidd ar agenda'r cyfarfodydd.

- Mae Tîm y Gymraeg hefyd wedi cynnal digwyddiadau mewn cyfarfodydd Cyfarwyddiaeth eraill. Mae rhagor o fanylion i'w cael o dan Safon 102.
- Mae ein Prif Weithredwr a'n Cadeirydd yn agor cyfarfodydd a digwyddiadau staff gyda chymaint o Gymraeg â phosibl ac maent bob amser yn croesawu ac yn annog eraill i ddefnyddio eu Cymraeg hefyd.
- Rydym yn annog staff i gymryd rhan yn ein cynllun Cyfaill, sef pan fydd 2 siaradwr Cymraeg nad ydynt efallai'n cael y cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg yn aml, yn cael eu paru i gael sgysiau rheolaidd naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.
- Adeg y Nadolig, crëwyd ein cefndir Teams corfforaethol yn uniaith Gymraeg er mwyn i Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda ddod yn gyfarchiad cyfarwydd i staff.



Dogfennau a gweithdrefnau staff (Safonau 80 - 88)

Dogfennau ar gyfer staff (Safon 81)

Mae pob dogfen sy'n ymwneud â chyflogaeth, fel y llythyr cynnig a'r contract cyflogaeth, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog yn ddiogfyn drwy system Trac gan y Tîm Recriwtio ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Enw ein system rheoli perfformiad yw 'Fy Nghyfraniad' ac mae'r ffurflenni y mae staff yn eu defnyddio i gofnodi amcanion perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ar gael yn ddwyieithog. Mae polisi Fy Nghyfraniad a'r ffurflenni ar gael i staff gael mynediad atynt yn fewnol ar ein mewnwydd.

Mae staff yn rheoli eu hanghenion gwyliau blynyddol a hyfforddiant ar system y Cofnod Staff Electronig (ESR). Nid yw pob rhan o'r system ar gael yn y Gymraeg, ond mae cynlluniau ar waith i gaffael system newydd yn lle ESR ar lefel genedlaethol erbyn 2027. Mae Tîm y Gymraeg yn cymryd rhan mewn sgysiau ynghylch y system newydd yn fewnol ac yn genedlaethol gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddir pob un o'n polisïau staff yn ddwyieithog ar ein mewnwydd fel bod mynediad atynt i'n staff. Mae copïau o'n polisïau staff ar gael ar gais.

Meddalwedd cyfrifiadurol i staff (Safon 89)

Mae meddalwedd Cysgliad ar gael i holl staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wirio gramadeg a sillafu drwy gontract ledled GIG Cymru gyfan sy'n cael ei ddal gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Y llynedd, gweithiodd Tîm y Gymraeg yn agos gyda chydweithwyr TG i symleiddio'r broses osod ar gyfer Cysgliad ar gyfrifiaduron personol drwy sefydlu proses gyflym i staff ychwanegu'r feddalwedd eu hunain mewn eiliadau. Mae Cysgliad bellach ar gael ar

gyfrifiaduron pob aelod o staff, dim ond ei osod drwy borth hunanwasanaeth y bydd angen iddynt ei wneud.

Ers gwneud y newid yng Ngwanwyn 2025, mae 60 aelod o staff wedi lawrlwytho Cysgliad i'w cyfrifiaduron personol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ysgrifenedig yn y gwaith.

Er mwyn sicrhau bod yr holl staff, yn enwedig staff newydd sy'n ymuno â'r sefydliad, yn ymwybodol bod Cysgliad ar gael yn hawdd iddynt, bydd Tîm y Gymraeg yn gweithio gyda chydweithwyr cyfathrebu mewnol dros y flwyddyn nesaf i anfon straeon newyddion rheolaidd allan ac i wreiddio'r cynnig mewn deunyddiau ymsefydlu.

Mewnrwyd Staff (Safonau 90 – 95)


Mae ein tudalennau mewnrwyd staff yn cael eu rheoli gan ein Tîm Cyfathrebu Mewnol ac maent yn gweithio'n agos gyda Tîm y Gymraeg i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau Cymraeg perthnasol. Yn ystod 2025 – 2026, cynhaliwyd gweithdai gyda staff i wella mewnrwyd y staff a rhoddwyd awgrymiadau ar sut i wella'r cynnwys Cymraeg ar waith. Bydd Tîm y Gymraeg yn parhau i weithio gyda chydweithwyr Cyfathrebu Mewnol i wella tudalen gartref a rhyngwynebau Cymraeg mewnrwyd y staff.

Cyhoeddir pob stori newyddion staff yn ddwyieithog yn awtomatig ac mae llawer o adrannau'n dewis cael tudalennau mewnrwyd dwyieithog, er nad yw eu gwaith wedi'i enwi o fewn y safonau.

Mae Tîm y Gymraeg yn rheoli ac yn cynnal tudalennau'r fewnrwyd sy'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad i staff ar y Gymraeg yn unol â safon 94. Enw'r adran hon o'r fewnrwyd yw Hwb y Gymraeg ac mae'n cynnwys adrannau ar Ddysgu Cymraeg, cyngor a chysylltiadau ar gyfer Cyfieithu, Adnoddau, Deddfwriaeth a fideos Iaith Gymraeg sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol. Mae'r tudalennau'n cael eu diweddarau'n barhaus gan y tîm, gyda chanllawiau a thempledi newydd yn cael eu hychwanegu yn ôl yr angen.



Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Tîm y Gymraeg wedi diweddarau ac ychwanegu rhagor o wybodaeth at yr Hwb i gynnwys gwybodaeth ymsefydlu ar gyfer staff newydd yn ogystal ag adran bwrpasol lle y gall staff archebu deunyddiau yn hawdd fel cortynnau gwddf, bathodynau a phosteri Cymraeg Gwaith, cael mynediad at feddalwedd Cysgliad a phosteri dysgu Cymraeg gyda chodau QR ar gyfer staff sgrinio a labordy. Mae'r fideos Mwya Geiriau newydd a grëwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi'u hychwanegu at dudalen y Fideos Iaith Gymraeg.



Nid yw rhai o dudalennau'r fewnwyd a enwir o dan safon 90 i ni yn cydymffurfio'n llawn ar hyn o bryd fodd bynnag, ac mae gwaith i'w wneud mewn rhai meysydd fel recriwtio a dysgu a datblygu. Mae gan y timau sy'n gyfrifol am y cynnwys hwn gynlluniau gweithredu ar waith fel y bydd yr wybodaeth ar gael i'n staff yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Hyfforddiant staff (Safonau 96–103)


Sgiliau Cymraeg ein gweithlu (Safon 96)

Er mwyn ein helpu i ddeall gallu'r Gymraeg ar draws y sefydliad a chynllunio'r gefnogaeth gywir yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'n bwysig i bob aelod o staff gofnodi eu sgiliau Cymraeg, ni waeth beth fo'u rôl neu eu lleoliad. Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff asesu a chofrestru eu lefel bresennol o Gymraeg.

I sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn gywir, rydym yn atgoffa staff ar wahanol adegau yn ystod y cylch oes cyflogaeth. Er enghraifft, cânt eu hannog i gofnodi eu sgiliau yn ystod recriwtio, wrth osod nodau ar eu ffurflen 'Fy Nghyfraniad', a phryd bynnag y byddant yn gwella eu sgiliau iaith trwy hyfforddiant.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2025, roeddem yn falch o weld bod **98%** o'n gweithwyr wedi cofrestru lefel eu sgiliau Cymraeg ar system y Cofnod Staff Electronig (ESR).

Fel sefydliad, rydym yn defnyddio mwy a mwy o Power Apps a Power BI ar gyfer adrodd. Gan fod Tîm y Gymraeg yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, mae data ar gydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg wedi'i ychwanegu at y Dangosfwrdd newydd ei ddatblygu ar gyfer Dangosyddion Perfformiad Allweddol Pobl a Datblygu Sefydliadol fel y gellir cael mynediad at ddata, fel data ar sgiliau Cymraeg a chydymffurfedd â chwblhau modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ESR, a'i fonitro'n hawdd. Isod mae sgrinlun o adran y Gymraeg o fewn y dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol:



Helpu Staff i Wella eu Sgiliau Cymraeg (Safonau 96–103)

Hyfforddiant y Gymraeg i reolwyr



Yn ystod 2025 – 2026, buom yn gweithio'n agos gyda'n darparwr hyfforddiant allanol i reolwyr, sef HICO, i ddarparu hyfforddiant i staff yn unol â safonau 97, 98 a 99(b). Mae HICO wedi cyflwyno sesiynau ar y Gymraeg i Reolwyr a Defnyddio'r Gymraeg yn Effeithiol i staff yn ystod y flwyddyn. Mae trosolwg o'r ddwy sesiwn isod:

Defnyddio'r Gymraeg yn Effeithiol

Wedi'i hwyluso yn y Gymraeg, mae'r sesiwn yn trin a thrafod sut i gefnogi rheolwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol yn eu rolau – mae hyn yn cynnwys defnydd achlysurol a defnydd mewn prosesau/lleoliadau ffurfiol.

Y Gymraeg i Reolwyr

Cyflwynir yr hyfforddiant mewn ffordd syml a chefnogol trwy sesiynau byr, ar-lein. Mae'n cynnwys awgrymiadau ymarferol, enghreifftiau o fywyd go iawn, a thrafodaethau grŵp i helpu rheolwyr i deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth annog y defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith bob dydd.

Recriwtio a Dethol

Mae HICO hefyd yn gweithio gyda'n Tîm Adnoddau i sicrhau y bydd ein hyfforddiant Recriwtio a Dethol hefyd ar gael yn Gymraeg i'n rheolwyr a'n staff recriwtio dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae adborth gan staff sydd wedi mynychu'r ddau gwrs a gynigir gan HICO wedi bod yn hynod gadarnhaol ac edrychwn ymlaen at weithio gyda nhw ymhellach yn ystod 2026 – 2027 ar bob un o'r 3 chyfle hyfforddi.

Cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu yn unol â Safonau 96-103.

Mae ystod eang o gyfleoedd dysgu wedi'u hariannu a chyfleoedd dysgu am ddim ar gael i staff, o Gymraeg lefel mynediad i ddechreuwr i Gymraeg uwch y gweithle a sesiynau wedi eu targedu at reolwyr. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, darpariaeth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a chysiau lefel uwch drwy Nant Gwrtheyrn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg a'n darparwr sesiynau Croeso a Magu Hyder, Coleg Cambria.

Mae'r ddau gyfle hyn yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'u buddsoddiad yn sgiliau Cymraeg y gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'r ddau hefyd wedi'u halinio â'r targedau yng Nghynllun Gweithredu Mwy na Geiriau 2022 – 2027.

Gellir gweld data ar nifer y staff ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru a Pherfformiad a Gwella GIG Cymru sydd wedi mynychu'r amrywiol gyfleoedd dysgu Cymraeg a oedd ar gael yn ystod 2025 – 2026 yn y tabl isod.

Cwrs a fynychwyd	Niferoedd staff
------------------	-----------------

Sesiynau Croeso, Coleg Cambria (gyda BIA Powys ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru)	91
Magu Hyder, Coleg Cambria (a ariennir gan Lywodraeth Cymru)	13 o staff (3 charfan)
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (Cymraeg Gwaith). Amrywiaeth o gyrsiau blasu ar-lein gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg: Cyrsiau blasu byr ar-lein Dysgu Cymraeg	34
Defnyddio Cymraeg Gwaith (Canolradd / Uwch / Gloywi) Nant Gwrtheyrn	3
Amrywiol Ddarparwyr Dysgu Cymraeg eraill - Mynediad i Uwch	31

Mae Tîm y Gymraeg wedi creu posteri gyda chodau QR ar gyfer staff mewn labordai a lleoliadau sgrinio, nad oes ganddynt fynediad rheolaidd i'r fewnwyd efallai, gyda gwybodaeth am yr holl gyfleoedd dysgu Cymraeg sydd ar gael iddynt drwy'r gweithle.



Ym mis Chwefror, buom yn gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i lansio'r Cynllun Siarad Iechyd. Bydd y cynllun ynparu siaradwyr Cymraeg hyderus â siaradwyr llai hyderus ar draws pob sefydliad o fewn y GIG, gan baru unigolion ar sail lleoliad a rôl ac rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu'r gwaith hwn yn ystod 2026 – 2027.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safon 102)

Mae modiwl hyfforddi ar-lein Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhan o'r hyfforddiant gorfodol a statudol y mae'n rhaid i bob aelod o staff ei gwblhau ac mae angen ei adnewyddu bob 3 blynedd. Dyma'r prif hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gynigir i staff o hyd.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd **82.89%** o aelodau staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cwblhau'r modiwl. Mae'r ganran hon wedi gostwng ers y llynedd ac mae hyn oherwydd bod nifer o staff wedi cyrraedd diwedd y cylch 3 blynedd i gwblhau'r hyfforddiant ac mae'n 3 blynedd ers cyflwyno'r hyfforddiant. O ganlyniad, rydym yn disgwyl i'r nifer hwn godi eto i

uwchlaw 90% pan fydd aelodau staff wedi dal i fyny â'u modiwlau hyfforddiant gorfodol ar ESR.

Bydd Tîm y Gymraeg a'r Tîm Dysgu a Datblygu yn codi ymwybyddiaeth staff a rheolwyr o'r angen i gwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn eu hannog i wneud hynny cyn gynted â phosibl.



I ategu'r hyfforddiant a roddir ym modiwl y Cofnod Staff Electronig, mae Tîm y Gymraeg yn cynnig hyfforddiant ychwanegol ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg y gellir ei deilwra ar gyfer meysydd gwasanaeth a thimau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, darparwyd hyfforddiant ar gyfer:

- Tîm Bron Brawf Cymru yng Ngogledd Cymru
- Tîm Bron Brawf Cymru yn Abertawe
- Staff Perfformiad a Gwella GIG Cymru – 1 sesiwn ar yr iaith Gymraeg yn gyffredinol ac 1 sesiwn ar brosesau cyfieithu i'r Gymraeg
- Y Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
- Y Gyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol

Ymsefydlu staff (Safon 103)

Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym yn deall pwysigrwydd sicrhau bod aelodau staff newydd yn cael eu cyflwyno i sefydliad dwyieithog o'r cychwyn cyntaf, a'u bod yn sylweddoli pwysigrwydd gweithio'n ddwyieithog a chynnig gwasanaeth dwyieithog, yn ogystal â sut i wneud hyn a chael cefnogaeth.

Mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o fewn y Gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol i sicrhau bod hyn yn digwydd ac i wneud gwelliannau lle y gallwn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r digwyddiad ymsefydlu wyneb yn wyneb i staff yng Nghaerdydd wedi'i ailwampio, gyda mwy o wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg. Bydd aelod o Dîm y Gymraeg hefyd yn bresennol ar stondin Pobl a Datblygu Sefydliadol yn y farchnad ym mhob digwyddiad chwarterol wyneb yn wyneb.

Mae adran newydd, Gwybodaeth am y Gymraeg i Staff Newydd, ar dudalennau Hwb y Gymraeg yn dwyn yr holl wybodaeth am y Gymraeg ynghyd ar gyfer staff newydd ac mae

gwybodaeth am ymweld â'r dudalen wedi'i chynnwys ym mhob deunydd ymsefydlu corfforaethol yn ogystal â gwybodaeth am restr wirio rheolwyr y Gymraeg. Mae gan rai adrannau unigol eu prosesau ymsefydlu eu hunain hefyd ar gyfer eu haelodau staff, sy'n cynnwys dolenni i'r canllawiau a'r wybodaeth uchod am y Gymraeg.

Iaith Gwaith (Safonau 104 -105)

Mae templedi i staff eu defnyddio mewn templedi e-bost a llofnodion ar gael o fewn ein canllawiau brand. Gweler yr wybodaeth am safon 62 yn yr adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth ac enghreifftiau.

Mae cortynnau gwddf, bathodynau a phosteri Cymraeg Gwaith yn ogystal â chardiau pabell ar gael i staff drwy:

- Dudalen Nwyddau Cymraeg am Ddim newydd ein Hwb y Gymraeg,
- Ffurflen archebu ar-lein syml y gall staff ei defnyddio i gael deunyddiau 'Cymraeg Gwaith'. Ar ôl eu harchebu, cânt eu dosbarthu gan Dîm y Gymraeg.
- Mae basgedi o nwyddau mewn rhai mannau derbynfa i staff helpu eu hunain iddynt
- Mae bathodynau Cymraeg Gwaith (ni ellir gwisgo cortynnau gwddf mewn clinigau) eisoes wedi'u rhannu â rhai o'r is-adrannau sgrinio sy'n cynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg fel bod ganddyn nhw stoc. Dros y flwyddyn nesaf bydd Tîm y Gymraeg yn gweithio gydag Arweinwyr Rhaglenni Sgrinio i anfon nwyddau i bob uned deithiol sy'n darparu gwasanaethau sgrinio fel eu bod ar gael yn rhwydd.



Recriwtio (Safonau 106–109)

Ochr yn ochr â datblygu sgiliau Cymraeg ein gweithwyr, mae recriwtio staff dwyieithog yn rhan o'n dull o gynllunio'r gweithlu i sicrhau y darperir gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae offeryn asesu sgiliau Cymraeg wedi bod yn rhan annatod a gorfodol o'r broses recriwtio ers sawl blwyddyn, ac mae'n gweithio'n dda.

Mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r tîm Adnoddau i sicrhau bod yr holl brosesau recriwtio yn cyd-fynd â'r safonau ac mae'r tîm yn gweithio'n rheolaidd gyda rheolwyr i wneud yn siŵr bod eu swyddi gweigion Cymraeg hanfodol yn cael eu targedu a'u marchnata tuag at gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Bydd y datblygiadau wrth gyfieithu tudalennau mewnwyd y staff ar recriwtio a datblygu a chynnig yr hyfforddiant Recriwtio a Dethol yn Gymraeg dros y flwyddyn nesaf yn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach.

Cynllunio'r Gweithlu yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Eleni (2025/26) yw'r ail gylch cynllunio yn olynol pan ystyriwyd y Gweithlu fel rhan o'r broses gynllunio integredig. O ganlyniad, mae timau Cyfarwyddiaethau wedi meddwl am eu hanghenion gweithlu yn y dyfodol ochr yn ochr â chynlluniau gwasanaeth ac ariannol, gan



alluogi iddynt nodi camau gweithredu sydd wir yn cyd-fynd â'u cynlluniau gwasanaeth hirdymor.

I gefnogi timau yn ystod proses cynllunio'r gweithlu, datblygwyd fersiwn bwrpasol o Becyn Cymorth Cynllunio'r Gweithlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Arweiniodd hyn dimau drwy'r Dull Chwe Cham, sef y fframwaith cynllunio'r gweithlu a fabwysiadwyd ar draws GIG Cymru. Ar ôl cwblhau'r pecyn cymorth, dylai timau feddu ar ddealltwriaeth glir o'r camau gweithredu y mae eu hangen i lunio a datblygu eu gweithlu yn y dyfodol mewn ffordd gynlluniedig a chynaliadwy.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Harweinydd Cynllunio'r Gweithlu, Partneriaid Busnes Pobl a Datblygu Sefydliadol a Thîm y Gymraeg wedi cefnogi Cyfarwyddiaethau i gynnwys targedau cynllunio gweithlu ystyrlon ar gyfer y Gymraeg yn eu cynlluniau gweithlu. Roedd y gefnogaeth hon yn cynnwys cyflwyniad i bob Cyfarwyddiaeth yn cynnwys gwybodaeth am gefndir pwysigrwydd cynnwys targedau'r Gymraeg yng nghynlluniau'r gweithlu yn ogystal â thargedau pwrpasol argymelledig ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth o dan themâu dysgu Cymraeg (sesiynau Croeso a Magu Hyder) a recriwtio.

Ffair yrfaeodd ysgolion uwchradd De Cymru (Mehfin 2025)

Gan gydweithio â sefydliadau eraill GIG Cymru, roeddem yn falch o gymryd rhan yn y Ffair Yrfaeodd Cyfrwng Cymraeg eleni, a gynhaliwyd yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ddydd Mercher, 11 Mehfin. Rhoddodd ymgysylltu â myfyrwyr Blwyddyn 12 o ysgolion cyfrwng Cymraeg gyfle gwerthfawr i arddangos yr amrywiaeth eang o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael o fewn y GIG.

Neges allweddol a rannwyd gennym oedd bod y GIG yn ymestyn ymhell y tu hwnt i rolau clinigol. Yn ogystal â meddygon a nyrsys, rydym yn dibynnu ar weithwyr proffesiynol medrus ym meysydd TG, cyllid, ystadau, gweinyddu, cyfathrebu, iechyd meddwl, bydwreigiaeth, parafeddygaeth, gwyddorau labordy, adnoddau dynol, arlwy, a mwy. Y neges bwysicaf oedd bod angen sgiliau Cymraeg ar draws holl feysydd y GIG.

Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol (Safon 110 – 110A)

Cyhoeddwyd ein Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol ym mis Medi 2023: <https://phw.nhs.wales/app/uploads/sites/2/2026/05/Cynllun-Ymgynghori-Clinigol-ICC-2023.pdf>

Mae'r cynllun yn manylu ar ein huchelgais i wella ein gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg dros gyfnod o bum mlynedd. Gan mai dim ond rhai o'n hadrannau sy'n cynnal ymgynghoriadau clinigol, mae'r cynllun wedi'i ddrafftio gan staff o'n hadrannau Sgrinio a Helpa Fi i Stopio, gyda chefnogaeth Tîm y Gymraeg. O ganlyniad, mae gan dimau clinigol berchnogaeth dros y cynllun, gyda'r targedau a osodwyd dros y 5 mlynedd yn realistig ac yn uchelgeisiol. Mae'r cynllun yn cynnwys targedau o dan benawdau Technoleg a Data, Systemau, a Recriwtio ac Uwchsgilio.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Tîm y Gymraeg ac aelodau'r timau Sgrinio a Helpa Fi i Stopio wedi mynychu cyfarfodydd y Fforwm Iechyd a chyfarfodydd monitro blynyddol a gynhaliwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru ar Safon 110.

Er mwyn cefnogi ymhellach y datblygiadau ar y Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol yn fewnol yn ystod 2025 - 2026, rydym wedi:



- Sefydlu log y Cynllun Ymgynghoriadau Clinigol ar restrau SharePoint i adrannau clinigol fonitro a mewnbynnu tystiolaeth yn erbyn pob un o'r targedau yn y cynllun.
- Sefydlu cyfarfod adnewyddu Ymgynghoriadau Clinigol chwarterol gyda'r 4 rhaglen sgrinio o dan y cynllun i hoelio ein sylw o'r newydd ar y targedau a sut i'w cyflawni.
- Sicrhawyd y bydd pob llythyr apwyntiad sgrinio ar gyfer y 4 rhaglen yn cynnwys brawddeg ar gynnig rhagweithiol newydd ei gytuno i alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ofyn am apwyntiad gyda siaradwr Cymraeg os dymunant.
- Mae Tîm y Gymraeg yn cyfarfod yn rheolaidd â phob Arweinydd Rhaglen Sgrinio yn unigol i drafod heriau a llwyddiannau unigol.
- Rhannwyd holiadur gyda staff Sgrinio ar ba mor hygyrch yw ein cyfleoedd dysgu Cymraeg ar hyn o bryd a sut i'w gwella, a pha gyfleoedd y byddent yn eu croesawu i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn clinigau. Bydd data o'r holiadur yn cael ei gasglu rhwng Ebrill a Mai 2026.
- Dechreuwyd trafodaethau gyda Rhaglen Sgrinio'r Ysgyfaint (i'w lansio ddiwedd 2027) i sicrhau bod y Gymraeg wedi'i gwreiddio yn y rhaglen a bod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth gaffael y Rhaglen Gweinyddu Cleifion a recriwtio staff clinigol.

Oherwydd llwyddiant system Civica wrth gasglu adborth ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau o dderbyn gwasanaeth yn Gymraeg (mae rhagor o wybodaeth ar gael am hyn o dan safon 36), mae'n hyfryd gweld enghreifftiau o gael adborth cadarnhaol i'r tîm pan fydd gwasanaeth Cymraeg wedi cael ei werthfawrogi. Mae enghraifft o adborth cadarnhaol a dderbyniwyd gan ein tîm Sgrinio AAA i'w gweld isod:

Gwych oedd cael ymarferydd yn siarad Cymraeg. Mae'n gwneud gwahaniaeth mawr i glaf. Roedd y modd yr eglurodd hi yr holl broses, a'r gwahanol gamau posib, yn dibynnu ar ganlyniadau'r prawf, yn bwyllog, yn gwbl eglur a chwbl ddealladwy.

A'r prawf ei hun yn hollol ddi-ffws. Mewn ymateb i gwestiwn gen i yn dilyn y prawf, fe wnaeth hi hyd yn oed fynd i'r drafferth o egluro'r cyfan yn fanwl ar y sgrin, sut fyddai adnabod ymlediad aortig ar y sgrin ayb. Patrwm o apwyntiad.

Bydd ein hasesiad cyntaf o'r cynllun (i fodloni Safon 110A) yn cael ei gynnal yn 2027, yn unol â chynghor a roddwyd gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Nifer y cwynion a dderbyniwyd (Safon 115)

Rydym yn croesawu adborth a chwynion am ein gwasanaethau Cymraeg gan eu bod yn ein galluogi i wella a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid a staff. Isod mae manylion y cwynion sy'n ymwneud â'n gwasanaeth Cymraeg a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn:

Sut y derbyniwyd y gŵyn	Natur y gŵyn
Gweithio i Wella	Derbyniwyd cwyn gan ddefnyddiwr gwasanaeth nad oedd aelod o staff yn un o'n clinigau sgrinio yn gallu defnyddio cyfarchion Cymraeg sylfaenol. O ganlyniad, cynhaliodd aelod o Dîm y Gymraeg sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda'r tîm a hyrwyddwyd y sesiwn Croeso i staff ei mynychu.



Blwch negeseuon Tîm y Gymraeg	Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch mynediad at y testun Cymraeg ar y gwasanaeth Profi a Phostio Iechyd Rhywiol, a'i ansawdd. O ganlyniad i'r gŵyn hon, ac eraill a dderbyniwyd yn flaenorol, mae gweithgor mewnol wedi'i sefydlu i sicrhau bod darparwr trydydd parti'r porth yn deall ei gyfrifoldebau o ran y Gymraeg ac mae contract ar waith gyda chwmni cyfieithu i gyflawni gwiriadau a chyfieithiadau rheolaidd.
Comisiynydd y Gymraeg	Derbyniwyd cwyn oddi wrth aelod o'r cyhoedd, drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, nad oedd cynnig rhagweithiol y Gymraeg ar gael yn un o glinigau Bron Brawf Cymru ac, o ganlyniad, nid oedd defnyddiwr y gwasanaeth yn gallu defnyddio'u Cymraeg. Gan fod y Radiograffydd a oedd yn bresennol ar y diwrnod yn siarad Cymraeg, roedd hyn yn gamddealltwriaeth anffodus. O ganlyniad, mae pwysigrwydd rhoi cynnig rhagweithiol wedi'i bwysleisio i dimau clinigol ac mae bathodynau Cymraeg Gwaith wedi'u rhannu'n eang.
Gweithio i Wella	Derbyniwyd cwyn oddi wrth defnyddiwr gwasanaeth ynghylch hyd y neges ddwyieithog a oedd wedi'i recordio ymlaen llaw ar y llinell ffôn cwynion. Mae'r unigolyn wedi datgan bod recordio'r neges ymlaen llaw fel un neges ddwyieithog yn cynyddu'r amser y mae galwyr ar y llinell ac, efallai, yn effeithio ar gost eu munudau ar y ffôn. O ganlyniad, mae'r neges wedi'i byrhau ac mae'r tîm yn ystyried y posibilrwydd o ychwanegu opsiynau ar gyfer dewis iaith.
Ffurflen adborth iaith Gymraeg	Derbyniwyd cwyn gan ddefnyddiwr gwasanaeth eu bod wedi derbyn gohebiaeth ddwyieithog gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ond eu bod eisiau gohebiaeth yn Saesneg yn unig. Fe wnaethon ni ymateb gyda'r rhesymau pam mae ein taflenni gwybodaeth ac ati yn ddwyieithog yn ddiofyn.
Gweithio i Wella	Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd i godi pryderon ynghylch y gramadeg a ddefnyddiwyd mewn post Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. O ganlyniad, mae Tîm y Gymraeg yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu Digidol ac mae mwyafrif y cyfieithiadau ar gyfer ein sianeli cyfryngau cymdeithasol bellach naill ai'n cael eu cwblhau neu eu gwirio gan Dîm y Gymraeg cyn eu postio.
Gweithio i Wella	Derbyniwyd cwyn gan ddefnyddiwr gwasanaeth ynghylch diffyg arwyddion dwyieithog yn un o'n clinigau Bron Brawf Cymru a'r diffyg cyfarchion Cymraeg sylfaenol a ddefnyddiwyd gan staff. O ganlyniad, cynhaliodd aelod o Dîm y Gymraeg sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda'r tîm a hyrwyddwyd y sesiwn Croeso i staff ei mynychu.
Gweithio i Wella	Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd bod brawddeg ar daflen Bron Brawf Cymru yn Gymraeg yn anghywir a bod fersiwn Gymraeg y ffurflen gwyno ar-lein wedi dechrau ar y



	dudalen olaf, nid y dudalen gyntaf. O ganlyniad, cywirodd y Tîm Cyfathrebu Digidol y broblem gyda'r ddolen ar unwaith ac, oherwydd bod y daflen yn un hen o 2021, bydd yn cael ei hadnewyddu a'i hailgyhoeddi yn ystod 2026.
Comisiynydd y Gymraeg	Derbyniodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru gŵyn ynghylch diffyg cynllunio'r Gymraeg mewn gwasanaethau, yn enwedig gwasanaethau sy'n dod o fewn cylch gwaith meysydd blaenoriaeth Mwy na Geiriau. O ganlyniad, mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi drafftio Cynllun Gweithredu'r Gymraeg ar gyfer gwella dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Cofnod o'n Safonau (Safon 118)

Mae copi o hysbysiad cydymffurfio terfynol Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â gwybodaeth gyffredinol am y Gymraeg, ar gael ar ein gwefan: [Y Gymraeg - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru/y-gymraeg)

Ymdrin â Phryderon a Chwynion (Safon 119)

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, aelodau'r cyhoedd a gweithwyr ar weithredu Safonau'r Gymraeg. Rydym am ddysgu o'u profiadau, boed yn dda neu'n ddrwg, a gwneud gwelliannau lle mae diffygion.

Yn ystod 2025-26, fe wnaethom ddelio â phryderon gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd ynghylch gweithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â'n proses gorfforaethol 'Gweithio i Wella'.

Mae'r dudalen Cwynion ar ein gwefan yn cynnwys adran ar Safonau'r Gymraeg a sut i gysylltu â ni i roi gwybod am achosion o beidio â chydymffurfio. [Cwynion - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru/cwynion)

Mae dolen i'r dudalen gwynion hefyd ar gael ar dudalen y Gymraeg ar ein gwefan: [Y Gymraeg - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](https://www.gig.cymru/y-gymraeg), sy'n rhoi manylion am sut y gellir codi pryderon drwy'r Tîm Pryderon Corfforaethol, Tîm y Gymraeg yn Iechyd Cyhoeddus Cymru neu drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Mae pob cwyn a dderbynnir yn cael ei chofnodi ar Datix, system rheoli pryderon GIG Cymru. Pan fydd cwynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg yn cael eu cofnodi ar y system, mae Tîm y Gymraeg yn derbyn hysbysiad awtomatig drwy e-bost. Adroddir ar y cwynion hyn hefyd yng nghyfarfodydd chwarterol Grŵp y Gymraeg ac i Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd.

Gweithio i Wella Putting Things Right

Bodlon eich byd?

Mae'r GIG yng Nghymru yn ceisio darparu gofio a thriniaeth orodda ffaerol. Mae eich adborth, boed yn dda neu'n ddrwg, yn bwysig er mwyn gwella ein gwasanaethau.

Os oes gennych bryder am eich gofio neu thriniaeth, siaradwch ag aelod o staff cym gyntied a phosib. Gallwch hefyd gymryd talfen Gweithio i Wella neu gysylltu ag aelod o'r tîm sy'n ddiol a phryderon neu'r practis.

Ffôn: 0300 003 0383
E-bost: Comisiynydd@iccywales.nhs.uk
Cyfeirnod: Tîm Gweithio i Wella, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2, Capital Quarter, Stryd Tyndal, Caerdydd, CF10 4BZ.

How are we doing?

The NHS in Wales aims to provide the very best care and treatment. Your feedback, good or bad, is important to help improve our services.

If you have a concern about your care or treatment, please talk to a member of staff as soon as possible. You can also pick up a Putting Things Right leaflet or speak to a member of the concerns team or practice.

Phone: 0300 003 0383
Email: Complaints.public.health@iccywales.nhs.uk
Post: Putting Things Right Team, Public Health Wales, Number 2, Capital Quarter, Tyndal Street, Cardiff, CF10 4BZ.

Gweithio i Wella

Lleisio pryder am y
Gwasanaeth Iechyd
Gwladol yng Nghymru

Putting Things Right

Raising a concern about the
NHS in Wales

Mae ein polisi cwynion yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau manwl ynghylch y Gymraeg. Mae gwybodaeth am y broses gwynion yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gael yma: <https://icc.gig.cymru/lleisio-cwyn-neu-godi-pryder>

Yn ystod 2025 – 2026, cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg eu hymchwil llwybr ymholi ar weithdrefnau sefydliadau wrth ddelio â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg. Er na ddewiswyd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o'r sefydliadau a fyddai'n cymryd rhan yn yr ymchwil, aeth Tîm y Gymraeg a'r Tîm Gweithio i Wella i'r digwyddiad dysgu a gynhaliwyd gan y Comisiynydd i rannu arferion gorau. O ganlyniad, dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- Pan fydd ein gwefan newydd yn cael ei lansio ym mis Mai, bydd gwybodaeth am y broses ar gyfer cwyno ynghylch gwasanaeth Cymraeg yn fwy hygyrch ac yn gliriach i ddefnyddwyr gwasanaethau nag ydyw ar hyn o bryd. Bydd gwybodaeth yn gliriach ar ein tudalen adborth a bydd gan gwynion am y Gymraeg ei hadran ei hun ar y dudalen hefyd.
- Rydym wedi cyflwyno log cwynion newydd am y Gymraeg ar SharePoint lle mae pob cwyn a dderbynnir drwy Gweithio i Wella, Comisiynydd y Gymraeg, y ffurflen adborth ar ein gwefan neu drwy'r e-bost yn cael ei chasglu fel bod cofnod cynhwysfawr canolog yn cael ei gadw.
- Er mwyn sicrhau bod cwynion a dderbynnir drwy Gomisiynydd y Gymraeg yn cael eu trin yr un mor effeithlon yn fewnol â chwynion a dderbynnir drwy Gweithio i Wella, mae Tîm y Gymraeg wedi cyhoeddi Gweithdrefn Gweithredu Safonol. Mae'r Weithdrefn Gweithredu Safonol yn sicrhau bod gan bob aelod o staff ar draws y sefydliad broses gam wrth gam i'w dilyn pan dderbynnir cwyn drwy Gomisiynydd y Gymraeg ac mae'n rhannu'r cyfrifoldeb am ymateb rhwng Tîm y Gymraeg a'r adran gyfrifol.
- Rydym wedi gwella ein harolwg ar y gwasanaeth Cymraeg a dderbynnir gan ddefnyddwyr ein gwasanaethau a'n cwsmeriaid. Mae'r arolwg ar gael ar ein gwefan: [Adborth a Chwynion - Iechyd Cyhoeddus Cymru / Feedback and Complaints - Public Health Wales](#). Ni fwriedir i'r arolwg ddisodli ein gweithdrefnau cwyno ond rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaethau roi adborth i ni ar y gwasanaethau Cymraeg a gawsant gennym ni, boed yn brofiadau cadarnhaol neu negyddol.

O 1 Ebrill 2026 ymlaen, bydd pob cwyn sy'n ymwneud â gweithredu Safonau'r Gymraeg, a dderbynnir yn fewnol, yn cael ei rheoli o dan y canllawiau Gwranddo ar Bobl, gan ddisodli Gweithio i Wella. Mae'r newid hwn yn dilyn rheoliadau newydd a gymeradwywyd gan y Senedd ym mis Hydref ac mae'n ymwneud â sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu cefnogi a'u trin â thrugaredd pan fyddant yn codi pryder. Mae llawer o staff ar



draws y sefydliad, gan gynnwys Tîm y Gymraeg, wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant ymwybyddiaeth ar gyfer Gwranddo ar Bobl a byddant yn parhau i weithio gyda'r tîm cwynion wrth i'r broses newydd gael ei gwreiddio yn y sefydliad.


Sgiliau Cymraeg gweithwyr (Safon 116))

Mae 2,172 o weithwyr (98% o'r gweithlu) wedi cofnodi eu gallu Cymraeg ar system y Cofnod Staff Electronig (ESR). Mae Tabl 2 yn dangos nifer a chanran y gweithwyr hyn sy'n hyfedr ar bob lefel.

Tabl 2: Cyfraddau datgan sgiliau Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru

	Nifer	Canran
Cyfrif pennau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31/03/2026	2,216	100%
Gweithwyr sydd wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2026	2,172	98%
Gweithwyr nad ydynt wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2026	44	2%
Lefel 0	1,308	59%
Lefel 1	444	20%
Lefel 2	109	5%
Lefel 3	71	3.2%
Lefel 4	93	4.2%
Lefel 5	147	6.6%
CYFANSWM	2,216	100.0%

Lefelau sgiliau Cymraeg y staff



Gofynion sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag (Safon 117)

Mae Safon 106 yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gategoreiddio pob swydd newydd a swydd wag yn ôl ei gofynion sgiliau Cymraeg. Darperir y data yn y tabl isod i ni gan gydweithwyr ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Yn ystod 2025-2026, hysbysebodd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Pherfformiad a Gwella GIG Cymru 451 o swyddi. Mae Tabl 3 yn dangos nifer a chanran y swyddi a hysbysebwyd yn ôl pob categori iaith.

Tabl 3: Sgiliau Cymraeg mewn recriwtio gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Pherfformiad a Gwella GIG Cymru

Categori swyddi	Nifer	Canran
Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol	12	3.2%
Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd	0	0%
Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol	413	91%
Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol	26	5.8%

Ein blaenoriaethau ar gyfer 2026–2027

Dros y cyfnod 12 mis nesaf, bydd ein ffocws o ran y Gymraeg ar y canlynol:



Targed	Erbyn Pryd?
Dysgu a datblygu Sgiliau Cymraeg: Byddwn yn sicrhau bod staff ar draws y sefydliad yn cael cyfle i gymryd rhan yng nghynnig Croeso a Chodi Hyder y Ganolfan Dysgu Cymraeg.	Bydd tair o garfanau'r cynllun Codi Hyder wedi cael eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2027 Cynhelir sesiynau Croeso yn rheolaidd
Defnyddio sgiliau Cymraeg Byddwn yn hybu ac yn annog ein staff i gymryd rhan yn y Cynllun Siarad Iechyd sydd ar gael i ni drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg. Bydd y cynllun ynparu siaradwyr Cymraeg hyderus â siaradwyr llai hyderus ar draws pob sefydliad o fewn y GIG, gan baru unigolion ar sail lleoliad a rôl.	Drwy gydol y flwyddyn
Modiwl Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ESR Bydd Tîm y Gymraeg a'r tîm Dysgu a Datblygu yn codi ymwybyddiaeth staff a rheolwyr o'r angen i gwblhau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg er mwyn cyrraedd y targed o 90% eto.	Erbyn diwedd Chwarter 2
Mewnrwyd Bydd adrannau nad yw eu cynnwys yn bodloni Safon 90 y Gymraeg ar hyn o bryd yn cael eu cyfieithu yn ystod y flwyddyn.	Cydymffurfio erbyn diwedd mis Mawrth 2027
Archwilio Byddwn yn cynnal ein harchwiliad ein hunain o linellau ffôn i'r cyhoedd, gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarparwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Byddwn yn archwilio ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarparwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.	Ar adegau rheolaidd drwy gydol y flwyddyn
Safonau Llundio Polisi Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad i wella cydymffurfedd â'r Safonau Llundio Polisi ac yn ymdrechu i sefydlu proses ar gyfer asesu effaith ein polisi a'n penderfyniadau strategol ar yr Iaith Gymraeg yn ystyrlon.	Diwedd mis Mawrth 2027
Cyfieithu:	



Byddwn yn tendro am fframwaith newydd o gyfieithwyr allanol i ddarparu cyfieithu digidol, ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a Pherfformiad a Gwella'r GIG.	Bydd contractau ar waith erbyn Tachwedd 2026
Arwyddion Byddwn yn lansio llyfrgell arwyddion dwyieithog newydd i alluogi'r holl staff i ddefnyddio arwyddion cywir a chyson yn fewnol ac yn allanol.	Lansio erbyn mis Medi 2027
Meddalwedd Cysgliad Byddwn yn cyhoeddi straeon newyddion rheolaidd i staff i hyrwyddo argaeledd meddalwedd Cysgliad a byddwn yn ymgorffori gwybodaeth am Cysgliad mewn deunyddiau ymsefydlu staff newydd.	Cyhoeddi stori newyddion bob chwarter
Gwefannau: Byddwn yn lansio gwefan gorfforaethol newydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llawn yn ystod gwanwyn / haf 2026, gan sicrhau bod pob tudalen yn cydymffurfio â Safon 39 y Gymraeg.	Gwanwyn / Haf 2026
Caffael: Byddwn yn adolygu, yn diweddarau ac yn cyhoeddi ein canllawiau ar yr Iaith Gymraeg mewn prosesau tendro mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Nhîm Caffael Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru.	Diwedd mis Mawrth 2027
Hyfforddiant: Byddwn yn parhau i weithio gyda'n darparwr hyfforddiant allanol i gynnig hyfforddiant i reolwyr a staff yn unol â Safonau'r Gymraeg drwy adeiladu ar yr hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a'i wella, gan gynnwys: Defnyddio'r Gymraeg yn Effeithiol Y Gymraeg i Reolwyr Recriwtio a Dethol yn Gymraeg	Diwedd mis Mawrth 2027
Hyrwyddo'r Gymraeg Byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithio i gyrraedd y targedau a nodir yn ein polisi newydd ei gyhoeddi, sef Defnydd Mewnol o'r Gymraeg, dros y flwyddyn nesaf, gan wneud cynnydd ym mhob maes targed.	Diwedd mis Mawrth 2027



Byddwn yn parhau i ddatblygu Iechyd Cyhoeddus Cymru fel sefydliad dwyieithog lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn cael eu dathlu. Byddwn yn gwneud hyn drwy wneud y canlynol:

- Trefnu o leiaf ddau ddigwyddiad dathlu dros y flwyddyn gyda'n rhwydwaith staff, Ymlaen.
- Archwilio'r posibilrwydd o gynnal mwy o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill GIG Cymru neu sefydlu rhwydwaith staff Cymraeg GIG Cymru gyfan.
- Cynnal Wythnos y Gymraeg ym mis Chwefror / Mawrth 2027.



Atodiad 1: Perfformiad a Gwella GIG Cymru

Sefydlwyd Perfformiad a Gwella GIG Cymru fel Gweithrediaeth GIG Cymru ar 1 Ebrill 2023, gyda rôl glir i gefnogi'r GIG yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau gwell i'r cyhoedd ac i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddwyn y GIG i gyfrif.

Mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru dan ofal Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) ac mae'n gweithredu fel pont rhwng Llywodraeth Cymru a GIG Cymru; felly, mae'n dilyn Safonau'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Mae gwybodaeth am Berfformiad a Gwella GIG Cymru ar gael ar y wefan:

Yn Gymraeg: [Perfformiad a Gwella GIG Cymru](#)

Yn Saesneg: [NHS Wales Performance and Improvement](#)

Drwy'r trefniadau cynnal, mae gan bob aelod o staff Perfformiad a Gwella GIG Cymru fynediad at dudalennau mewnwyd Hwb y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael arweiniad a chymorth, cynigir cyfle iddynt fod yn aelodau o Ymlaen, sef rhwydwaith y staff, a gallant fanteisio ar gyfleoedd dysgu Gymraeg a chyflenwyr cyfieithu i'r Gymraeg.

Mae aelod(au) o Dîm Llywodraethu Corfforaethol Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cyfarfod â Thîm y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru yn fisol, gan adeiladu ar berthnasoddd presennol a thrafod problemau a/neu ymholiadau a godir neu y mae angen ymchwilio iddynt.

Yn ystod y cyfnod adrodd, parhaodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, gan weithredu yn unol â Safonau'r Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy ei drefniadau cynnal a llywodraethu. Goruchwyliwyd gweithgarwch cydymffurfedd a gwella'r Gymraeg yn gorfforaethol, gan ymgysylltu'n rheolaidd â Thîm y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi sicrwydd a gwelliant parhaus.

Yn dilyn cyflwyno ap Cyfieithu'r Gymraeg, mae Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi ehangu nifer ei Weinyddwyr Cyfieithu o 23 i 75. At hynny, gwahoddir staff Perfformiad a Gwella GIG Cymru i gymryd rhan yng nghyfarfodydd Gweinyddwyr Cyfieithu Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cynhelir y sesiynau hyn i sicrhau y gall Gweinyddwyr Cyfieithu gyfathrebu â Thîm y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru os oes ganddynt unrhyw broblemau ynghylch prosesau cyfieithu. Cyfrifoldeb y Gweinyddwyr Cyfieithu yw sicrhau bod cyfieithiadau o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn cael eu hanfon a'u dychwelyd at y sawl sy'n gofyn am gyfieithiad.

I gynorthwyo staff â'r Gymraeg, mae gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael trwy dudalennau'r fewnwyd i gefnogi dwyieithrwydd a chodi ymwybyddiaeth o gyfleoedd pellach i hyrwyddo'r Gymraeg. Yn ogystal, gall staff fynd at dudalen y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Hwb y Gymraeg ar y fewnwyd, sy'n darparu gwybodaeth i staff am gyfleoedd i ddysgu Gymraeg.

Cyflwynwyd dwy weminar ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i staff Perfformiad a Gwella GIG Cymru yn ystod y flwyddyn gan Dîm y Gymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- "Yr Iaith Gymraeg – beth mae'n ei olygu i Berfformiad a Gwella'r GIG"
- "Cyfieithu i Iechyd Cyhoeddus Cymru a Pherfformiad a Gwella'r GIG"



Canolbwyntiodd y sesiynau hyn ar ddeddfwriaeth, cymhwyso ymarferol, a phrosesau cymorth mewnol.

Ar y cyfan, dangosodd Perfformiad a Gwella GIG Cymru gydymffurfedd barhaus â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2025–26 a chymryd camau cymesur i gryfhau ymwybyddiaeth, gallu a llywodraethu. Mae gweithgarwch yn ystod y flwyddyn wedi llywio datblygiad Cynllun Gweithredu'r Gymraeg wedi'i adnewyddu ar gyfer 2026–27, gan gefnogi gwelliant parhaus a chyd-fynd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Mae Perfformiad a Gwella'r GIG yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a bydd yn recriwtio Swyddog Iaith Gymraeg pwrpasol i gefnogi staff i fodloni Safonau'r Gymraeg a chynllun gweithredu Mwy na Geiriau.

Data cydymffurfedd Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safon 102)

Ar 31 Mawrth 2025, roedd 97.02% o aelodau staff Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cwblhau modiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar ESR.


Sgiliau Cymraeg gweithwyr (Safon 116)

Cyfraddau datgan sgiliau Cymraeg Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru

	Nifer	Canran
Cyfrif pennau Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru ar 31/03/2025	447	100%
Gweithwyr sydd wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2025	444	99%
Gweithwyr nad ydynt wedi cofnodi eu sgiliau siarad Cymraeg ar 31/03/2025	3	1%
Lefel 0	263	56%
Lefel 1	99	23%
Lefel 2	30	6.8%
Lefel 3	15	3.8%
Lefel 4	14	3.4%
Lefel 5	23	6%
CYFANSWM	447	100%

Lefelau sgiliau Cymraeg y staff

Sgiliau Cymraeg ar gyfer staff Perfformiad a Gwella GIG Cymru
2025 - 2026



■ Level 0 ■ Level 1 ■ Level 2 ■ Level 3 ■ Level 4 ■ Level 5

Gofynion sgiliau Cymraeg ar gyfer swyddi newydd a swyddi gwag (Safon 117)

Gweler y data o dan Safon 117 yn y prif adroddiad ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru gan fod hyn yn cynnwys y data ar gyfer Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safon 102)

Ar 31 Mawrth 2025, roedd **87.31%** o aelodau staff Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cwblhau'r modiwl.

